

**DYDD MERCHER, 12 HYDREF 2022**

**AT: YR AELOD O'R CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU **RHITH-GYFARFOD YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG** A GYNHELIR AM **2.00 YP**, AR **DYDD MERCHER, 19EG HYDREF, 2022** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

<b>Swyddog Democrataidd:</b>	<b>Julie Owens</b>
<b>Ffôn (llinell uniongyrchol):</b>	<b>01267 224088</b>
<b>E-bost:</b>	<b><a href="mailto:juowens@sirgar.gov.uk">juowens@sirgar.gov.uk</a></b>

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive*,  
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP  
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# AGENDA

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL
2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD 29ain O ORFFENNAF 2022 3 - 6
3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL 7 - 16
4. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GYMRAEG 2021-22 17 - 58

*Sylwer: - Nid oes hawl gan y wasg a'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod. Bydd y cofnod penderfyniad yn cael ei gyhoeddi fel arfer o fewn 3 diwrnod gwaith.*

**DYDD GWENER, 29 GORFFENNAF 2022**

**PRESENNOL** Cynghorydd G. Davies (Yn rhithwir)

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**

T. Neumayer-James, Prif Swyddog Llywodraethu Ysgolion

J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymerwr Cofnodion]

**CYFARFOD AML LEOLIAD: 9.30 - 9.51 yb**

**1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 14fed MAWRTH 2022**

**PENDERFYNWYD** llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2022 yn gofnod cywir.

**3. PENODI AELOD A.L.L. I BWYLLGOR RHEOLI'R UNED CYFEIRIO DISGYBLION (UCD)**

Ystyriodd yr Aelod Cabinet y mynegiannau o ddiddordeb a gafwyd ar gyfer penodi Aelod o'r Awdurdod Lleol i wasanaethu ar Bwyllgor Rheoli yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

**PENDERFYNWYD**, ar ôl ystyried y ceisiadau a ddaethai i law, benodi'r Cynghorydd Shelly Godfrey-Coles i wasanaethu ar Bwyllgor Rheoli yr Uned Cyfeirio Disgyblion er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Bwyllgor Rheoli yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

**4. PENODI LLYWODRAETHWYR A.L.L.**

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr Aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

Eglurodd y Pen Swyddog Llywodraethu Ysgolion, yn dilyn etholiadau diweddar y Cyngor Sir, fod yr holl Gyngorwyr Sir a oedd newydd eu hethol wedi cael eu gwahodd i enwebu'r Cyrff Llywodraethu yr oeddent yn dymuno cynrychioli'r awdurdod lleol arnynt.

Mae'n bolisi sirol y gall yr holl gynghorwyr sir ar ôl cael eu hethol bennu ar ba gyrff llywodraethu ysgolion y byddant yn eistedd a bydd eu penderfyniad yn cael blaenoriaeth dros lywodraethwyr awdurdod lleol na chafodd eu hethol. O ganlyniad, gall Cynghorwyr Sir enwebu i wasanaethu fel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol ar ysgolion lle nad oes lle gwag ar hyn o bryd. Os bydd swydd llywodraethwr wedi'i ordanysgrifio, gall y Cyngor nodi pa Lywodraethwr ALL sy'n gorfod rhoi'r gorau i'r swydd.

Eglurodd y Pen Swyddog Llywodraethu Ysgolion i'r Aelod Cabinet fod un lle gwag ychwanegol wedi codi ar gyfer ysgol gynradd Penrhos ers cyhoeddi dogfennau'r cyfarfod.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu o 1 Medi 2022 ymlaen oni nodwyd fel arall:-**

<b>Ysgol Gynradd</b>	<b>Penodiadau</b>
<b>Beca</b> (2 le gwag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Dorian Phillips
<b>Bigyn</b> (1 lle gwag – 2 enwebiad)	Y Cynghorydd Terry Davies Y Cynghorydd Suzy Curry (i gymryd lle J. Edmunds)
<b>Cefneithin</b> (2 le gwag – 1 enwebiad)	Miss S. Griffiths
<b>Glanyfferi</b> (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Lewis Davies
<b>Y Ffwrnes</b> (0 lle gwag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Martyn Palfreman (i gymryd lle S. Phillips)
<b>Talacharn</b> (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Y Parch C. Butler
<b>Llandybïe</b> (2 le gwag – 1 enwebiad)	Mr S. Isaac
<b>Llangadog</b> (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Andrew Davies
<b>Llanllwni</b> (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mr A. Evans

<b>Llanmilo</b> (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mrs B. Bowen
<b>Llanybydder</b> (0 lle gwag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Denise Owen (i gymryd lle Mr K. Patel)
<b>Llys Hywel</b> (2 le gwag – 1 enwebiad)	Ms M. James
<b>Maes y Morfa</b> (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Sean Rees
<b>Mynyddygarreg</b> (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Lewis Davies
<b>Parcyrhun</b> (2 le gwag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Peter Cooper
<b>Pen-bre</b> (0 lle gwag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Michael Thomas (i gymryd lle J. Jones)
<b>Penrhos</b> (2 le gwag – 2 enwebiad)	Y Cynghorydd Sean Lucas Rees Y Cynghorydd Terry Davies
<b>Pont-iets</b> (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mrs E. Cullen
<b>Saron</b> (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Peter Cooper
<b>Dyffryn y Swistir</b> (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mr M. Christopher
<b>Trimsaran</b> (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Ms M Arthur
<b>Y Bedol</b> (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Emyr Rees
<b>Y Felin</b> (2 le wag (un ar hyn o bryd ac un o 29 Ionawr 2023) - 2 enwebiad)	Y Cynghorydd Nysia Evans Mrs M. Billington (penodiad o 29.01.23)

<b>Ysgol Uwchradd</b>	<b>Penodiadau</b>
<b>Bro Dinefwr</b> (2 le gwag – 1 enwebiad)	Mr G. Kilby
<b>Bro Myrddin</b> (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Meinir James
<b>Bryngwyn – Glan-y-Môr</b> (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Michael Thomas
<b>Ysgol Dyffryn Aman</b> (1 lle gwag o 29.11.22 - 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Karen Davies (penodiad o 29.11.22)
<b>Maes y Gwendraeth</b> (3 le gwag – 1 enwebiad)	Y Cynghorydd Hefin Jones

<b>Ysgol Arbennig</b>	<b>Y Penodiad</b>
<b>Heol Goffa</b> (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Mr P. Newell

\_\_\_\_\_  
**CHAIR**

\_\_\_\_\_  
**DATE**

## 19 HYDREF 2022

<b>Yr Aelod o'r Cabinet:</b>	<b>Y Portffolio:</b>
<b>Y Cyng. Glynog Davies</b>	<b>Addysg a'r Gymraeg</b>

## PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.

**Yr Argymhellion / Penderfyniadau Allweddol Sydd Eu Hangen:**

Bod yr Aelod o'r Cabinet yn penodi unigolion i'r llefydd gwag sydd wedi eu rhestru.

**Y Rhesymau:**

Cyflawni'r rhwymedigaethau cyfreithiol o ran llenwi llefydd gwag ar Gyrrff Llywodraethol.

<b>Y Gyfarwyddiaeth</b> Addysg a Phlant	<b>Swydd:</b>	<b>Rhif Ffôn / Cyfeiriad E-bost:</b>
<b>Enw Pennaeth y Gwasanaeth:</b> Gareth Morgans	Cyfarwyddwr – Adran Addysg a Phlant	01267 246450 (G Morgans) <a href="mailto:edgmorgans@sirgar.gov.uk">edgmorgans@sirgar.gov.uk</a>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b> Tanja Neumayer-James	Pen Swyddog Llywodraethu Ysgolion	01267 246448 <a href="mailto:TNeumayer-James@sirgar.gov.uk">TNeumayer-James@sirgar.gov.uk</a>

**Declaration of Personal Interest (if any):**

**NONE**

**Dispensation Granted to Make Decision (if any):**

**N/A**

**DECISION MADE:**

**Signed:**

DATE: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_  
CABINET MEMBER

**The following section will be completed by the Democratic Services Officer in attendance at the meeting**

Recommendation of Officer adopted	YES / NO
Recommendation of the Officer was adopted <b>subject to the amendment(s) and reason(s) specified:</b>	
Reason(s) why the Officer's recommendation was <b>not adopted:</b>	



**EXECUTIVE SUMMARY  
CABINET MEMBER DECISIONS:  
EDUCATION AND THE WELSH LANGUAGE  
19 OCTOBER 2022**

**APPOINTMENT OF LA GOVERNORS**

**BRIEF SUMMARY OF PURPOSE OF REPORT**

In accordance with the LA appointment policy for LA Governors, vacancies exist in certain schools and schedules of nomination for these vacancies are attached. Nominations were invited from Chairperson, Headteacher and Local Member(s) in the case of Primary Schools / the Member(s) who is/are governors of that school in the case of Secondary Schools.

LA Governors are appointed for 4 years and where the vacancy occurs as a result of an individual's term of office coming to an end, this is noted in the details for that particular person if he/she is seeking appointment.

**DETAILED REPORT ATTACHED?**

**YES**

**IMPLICATIONS**

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :

Signed: **Gareth Morgans** Director – Department for Education & Children

Policy and Crime & Disorder	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Organisational Development	Physical Assets
<b>NONE</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>

**CONSULTATIONS**

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below

Signed: **Gareth Morgans** Director – Department for Education & Children

1. **Scrutiny Committee - n/a**
2. **Local Member(s)** Relevant Local Members have been notified of received nominations and invited to submit additional nominations.
3. **Community / Town Council – n/a**
4. **Relevant Partners – n/a**
5. **Staff Side Representatives and other Organisations – n/a**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information  
List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THERE ARE NONE.**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

## APPOINTMENT OF LA GOVERNORS

### *List for Consideration*

**19 October 2022**

PRIMARY SCHOOL	NO. OF VACANCIES	NOMINATIONS NAME AND ADDRESS	NOMINATED BY	DETAILS
<p><b>Please note: CCC's 'The Appointment of LA Governors' states that, 'All County Councillors [when elected] may stipulate on which school governing bodies they will sit, and their decision will take preference over 'non-elected' LA governors'.</b></p>				
Ammanford Nursery	1 from 29 <sup>th</sup> Nov	Cllr. Betsan Jones Democratic Services County Hall Carmarthen SA31 1JP	n/a – elected member	Cllr. Betsan Jones is seeking re-appointment as LA Governor to the Governing Body of Ammanford Nursery School.
Bryn	1 from 29 <sup>th</sup> Nov	Cllr. Gary Jones Democratic Services County Hall Carmarthen SA31 1JP	n/a – elected member	Cllr. Gary Jones is seeking re-appointment as LA Governor to the Governing Body of Bryn School.
Bryn Teg	1 from 29 <sup>th</sup> Nov	Cllr. Sharen Davies Democratic Services County Hall Carmarthen SA31 1JP	n/a – elected member	Cllr. Sharen Davies is seeking re-appointment as LA Governor to the Governing Body of Ysgol Bryn Teg.
Bynea  Tudalen 11	1 from 29 <sup>th</sup> Nov	Mrs L Dunleavy	Mrs T Morgan, Headteacher	Mrs Dunleavy currently serves as an LA governor and is committed to her role. She supports the school in many ways and is a regular visitor. As a retired Deputy Head of Ysgol y Bynea, Mrs Dunleavy knows the school and staff very well. She is knowledgeable of and interested in the community with the willingness to help the school develop. She regularly attends meetings and has active input into many areas of work at the school.

				<p>She would be an asset to our school if she could continue in her role as LA governor.'</p> <p>Mrs Morgan is seeking Mrs Dunleavy's re-appointment.</p>
Cefneithin	1	Mr R Culley	Miss S Griffiths, Chairperson	<p>'Reasons for nomination:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Commitment to education;</li> <li>• a desire to help improve standards of education within the school;</li> <li>• a knowledge of, and interest in, the community in which the school is situated;</li> <li>• willingness to share individual skills and expertise within the context of the governing body;</li> <li>• a commitment to update skills and knowledge on school governance.'</li> </ul>
Dafen	1	Mrs F Healey-Benson	Mr G Edwards, Chairperson	<p>'Mrs Healey-Benson has served as a parent governor and has brought much added value to the GB. She is an educational academic and has led the school staff to be the first school globally to be part of Entrecomp. We wish to retain her valuable service.'</p>
Five Roads	0	Cllr. Alex Evans Democratic Services County Hall Carmarthen SA31 1JP	n/a – elected member	<p>Cllr. Alex Evans is seeking appointment as LA Governor to the Governing Body of Five Roads School.</p> <p>Current LA Governors are Mr J. Jones (former elected member) and Mrs E. Barnard (shortest in role).</p>
Llangennech  Tudalen 12	1 from 29 <sup>th</sup> Nov	Mr A Gravell	Mr G Anderson, Headteacher	<p>'I nominate Mr Gravell to the role of LA Governor for the following reasons:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• His knowledge as a former primary school headteacher of support with various situations such as finance, education and safeguarding.</li> <li>• Because he is a native of the village, he has extensive knowledge of the history of the area and knowledge of the residents of the area.</li> </ul>

				<ul style="list-style-type: none"> <li>• His naturally measured ability to be non-biased and objective in meetings.'</li> </ul> <p>Mr Anderson is seeking Mr Gravell's re-appointment.</p>
Llechyfedach-Tumble Federation	1 from 29 <sup>th</sup> Nov	Cllr. Dot Jones Democratic Services County Hall Carmarthen SA31 1JP	n/a – elected member	Cllr. Dot Jones is seeking re-appointment as LA Governor to the Governing Body of the Llechyfedach-Tumble Schools Federation.
Myrddin	2	Mr W. Rowberry	Mr J. Parker, Headteacher	'Mr Rowberry has worked at Rhydygors School for a number of years as a Trauma Informed Practitioner – Senior Residential Childcare Officer and has expressed an interest in supporting Myrddin CP School by joining the school governing body.'
Parc y Tywyn	1	Ms S L Thomas	Mr M Davies, Chairperson, on behalf of the GB	<p>'Ms Thomas has lived in the Pembrey / Burry Port area all her life and is a fluent Welsh speaker and currently runs her own very successful wedding stationery business. She is an elected member on the Town Council and is the current Chairperson of the Authority's Regeneration Committee.</p> <p>Importantly she was employed as a History Teacher at Ysgol y Strade for several years between 2011 and 2017 and this will stand her in good stead in a role as a Governor.</p> <p>Ms Thomas is also involved as a weekly reader in the local Parish Church, she serves on the Parochial Church Council and is also a member of the local ministry panel.'</p>
Stebonheath Tudalen 13	2	Cllr. Michael Cranham Democratic Services County Hall Carmarthen SA31 1JP	n/a – elected member	Cllr. Michael Cranham is seeking appointment as LA Governor to the Governing Body of Stebonheath School. He currently serves on this GB as Community Governor, but won't be eligible to be re-appointed under that category, now that he is an elected member of the LA.

		Ms L Trinkwon	Mr J Littler, Headteacher	<p>'Ms. Trinkwon has served as LA Governor for 4 years and a further 8 years as Parent Governor prior to that. She commits to attending meetings on a regular basis and continues to show a willingness to share her knowledge and experience of modern educational issues. As a parent and Aunty of 2 ex-pupils, Ms. Trinkwon continues to express a keen interest in the school, its current pupils and the surrounding area. She also has a genuine desire to improve standards of education within the school in partnership with the Head Teacher and other members of the Governing Body.'</p> <p>Mr Littler is seeking Ms Trinkwon's re-appointment.</p>
--	--	---------------	------------------------------	---

<b>SECONDARY SCHOOL</b>	<b>NO. OF VACANCIES</b>	<b>NOMINATIONS NAME AND ADDRESS</b>	<b>NOMINATED BY</b>	<b>DETAILS</b>
Bryngwyn / Glan-y-Môr Federation	1	Cllr. Giles Morgan Democratic Services County Hall Carmarthen SA31 1JP	n/a – elected member	Cllr. Giles Morgan is seeking re-appointment as LA Governor to the Governing Body of the Bryngwyn / Glan-y-Môr Federation
QE High  Tudalen 14	1	Mrs C R Davies	Mr J Griffith, Chairperson	<p>'Having been a former pupil at a predecessor school to QEH, Mrs Davies went on to have both undergraduate degree and post graduate qualifications that has meant she is a practicing solicitor.</p> <p>She is passionate about how education can change lives and communities and feels QEH is a pivotal part of the town and adjacent areas of Carmarthen.</p> <p>Reflecting how many pupils remain to live and work in the area highlights to Mrs Davies how important education is in positively affecting the community and culture of the area.</p> <p>Mrs Davies is keen to utilise her skills and knowledge for the governing body's betterment and I support this</p>

				<p>application given we would benefit from her skillset in terms of governance and supporting oversight of our school development plan. She would also be a link governor for subjects we have vacancies for (law, public services, English)</p> <p>Mrs Davies is a lifelong learner, keen to embrace this role and learn new skills as she recognises each sector has its own language and processes and that law and education are very different.'</p>
<b>SPECIAL SCHOOL</b>	<b>NO. OF VACANCIES</b>	<b>NOMINATIONS NAME AND ADDRESS</b>	<b>NOMINATED BY</b>	<b>DETAILS</b>
n/a				

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwiadol



19 Hydref 2022

<b>Yr Aelod o'r Cabinet</b>	<b>Y Portffolio:</b>
<b>Y Cyng. Glynog Davies</b>	<b>Addysg a'r Gymraeg</b>

### Adroddiad Blynyddol y Gymraeg 2021-22

#### Y Pwrpas:

Derbyn yr adroddiad blynyddol o ran yr Iaith Gymraeg a chydymffurfiaeth â'r Safonau iaith yn ystod 2021-22.

#### Yr Argymhellion / Penderfyniadau Allweddol Sydd Eu Hangen:

Cytuno ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol er mwyn ei gyhoeddi a'i hyrwyddo ar wefan y Cyngor.

#### Y Rhesymau:

Mae'n ddyletswydd statudol ar yr Awdurdod i weithredu Safonau'r iaith Gymraeg. Fel rhan o'r Safonau hynny, mae'n ofynnol i ni gyhoeddi Adroddiad Blynyddol er mwyn amlinellu sut y cyflawnwyd y gwaith.

<p><b>Y Gyfarwyddiaeth:</b> Prif Weithredwr</p> <p><b>Enw Pennaeth y Gwasanaeth:</b> Noelwyn Daniel</p> <p><b>Awdur yr Adroddiad:</b> Llinos Evans a Myfanwy Jones</p>	<p><b>Swyddi:</b> Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol a Chyfarwyddwr Gweithredol Adran yr Amgylchedd</p> <p>Rheolwr Polisi a Chynnwys Swyddog Datblygu Iaith</p>	<p><b>Cyfeiriadau E-bost:</b> <a href="mailto:NDaniel@sirgar.gov.uk">NDaniel@sirgar.gov.uk</a></p> <p><a href="mailto:LlinEvans@sirgar.gov.uk">LlinEvans@sirgar.gov.uk</a> <a href="mailto:MyJones@sirgar.gov.uk">MyJones@sirgar.gov.uk</a></p>
--	--	---

**Declaration of Personal Interest (if any):**

None

**Dispensation Granted to Make Decision (if any):**

N/A

**DECISION MADE:**

Signed:

DATE: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_  
CABINET MEMBER

**The following section will be completed by the Democratic Services Officer in attendance at the meeting**

Recommendation of Officer adopted	YES / NO
Recommendation of the Officer was adopted <b>subject to the amendment(s) and reason(s) specified:</b>	
Reason(s) why the Officer's recommendation was <b>not adopted:</b>	

**EXECUTIVE SUMMARY  
CABINET MEMBER DECISIONS:  
EDUCATION AND WELSH LANGUAGE  
19 OCTOBER 2022**

**ANNUAL REPORT ON THE WELSH LANGUAGE 2021-22**

This Annual Report has been produced to comply with the Welsh Language Commissioner's monitoring arrangements. The Welsh Language Commissioner gave Carmarthenshire County Council a compliance notice regarding the Welsh Language Standards Regulations on 30 September 2015 which required CCC to comply with most of the standards by 31 March 2016. The Welsh Language (Wales) Measure 2011 is the legislation that created the Welsh language standards.

Welsh language standards promote and facilitate the Welsh language and ensure that the Welsh language is not treated less favourably than the English language in Wales.

The Welsh language Standards:

- Provide clarity to organisations on their duties on the Welsh language in terms of Service delivery, Policy making, and internal operations, as well as their duties to promote the Welsh language,
- Provide clarity to Welsh speakers on the services they can expect to receive in Welsh
- Ensure more consistency of Welsh language services and improve their quality.
- The Welsh Language Commissioner's Assurance Report 2021-22 notes that our performance was excellent in the provision of services through the medium of Welsh, with the only exceptions being the need for clearer reference to the Standards on our web page that explains the council's complaints policy. It was also noted that the phrase at the end of correspondence needed to guarantee no delay, and some of our forms did not indicate that the form was also available in Welsh.
- Areas of services sampled included correspondence, telephone calls, reception areas, forms, press releases, social media, website, jobs advertised and signage. Of the sample undertaken, the areas noted above were fully compliant.

Preparing and publishing an Annual Report on the implementation of the Standards is a statutory requirement.

**DETAILED REPORT ATTACHED ?**

**YES  
Annual Report 2021-22**

# IMPLICATIONS

I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report:

Signed: Noelwyn Daniel, Head of ICT & Corporate Policy and Interim Director of Environment

Policy and Crime & Disorder	Legal	Finance	ICT	Risk Management Issues	Organisational Development	Physical Assets
<b>YES</b>	<b>YES</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>	<b>NONE</b>

## 1. Policy, Crime & Disorder and Equalities

The Compliance Notice received from the Welsh Language Commissioner on 30 September 2015 required the Authority to comply with a new set of Standards by 31 March 2016.

## 2. Legal

The Welsh Language Standards Regulations 2015 came into force on 31 March 2015. These Regulations replace the responsibilities placed on Carmarthenshire County Council under the Welsh Language Act 1993 and were imposed on the Authority on 31 March 2016.

# CONSULTATIONS

I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below

Signed: Noelwyn Daniel, Head of ICT and Corporate Policy and Interim Director of Environment

1. Scrutiny Committee

N/A

2. Local Member(s)

N/A.

3. Community / Town Council

N/A

4. Relevant Partners

N/A

5. Staff Side Representatives and other Organisations

N/A

Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information  
List of Background Papers used in the preparation of this report:

THESE ARE DETAILED BELOW

Title of Document	File Ref No.	Locations that the papers are available for public inspection
Welsh Language (Wales) Measure 2011		<p>Welsh version <a href="http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/pdfs/mwa_20110001_we.pdf">http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/pdfs/mwa_20110001_we.pdf</a></p> <p>English version <a href="http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/pdfs/mwa_20110001_en.pdf">http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/pdfs/mwa_20110001_en.pdf</a></p>
Carmarthenshire County Council's Welsh Language Standards – Compliance Notice		<p>Welsh version <a href="http://www.gov.wales/hysbysiad-cydymffurfio44-cyngor-sir-gar">hysbysiad-cydymffurfio44-cyngor-sir-gar.pdf (gov.wales)</a></p> <p>English version <a href="http://www.gov.wales/compliance-notice44-carmarthenshire-county-council.pdf">compliance-notice44-carmarthenshire-county-council.pdf (gov.wales)</a></p>
<p>Stepping Forward The Welsh Language Commissioner's assurance report 2020-21</p> <p>(The 2021-22 report is not available on the Commissioner's website yet)</p>		<p>Welsh Version <a href="http://www.comisiynyddygydraeg.cymru/Camu_Ymlaen_Adroddiad_Sicrwydd_2020-21">Camu Ymlaen Adroddiad Sicrwydd 2020-21 (comisiynyddygydraeg.cymru)</a></p> <p>English version <a href="http://www.welshlanguagecommissioner.wales/Stepping_Forward_Adroddiad_Sicrwydd_2020-21">Stepping Forward Adroddiad Sicrwydd 2020-21 (welshlanguagecommissioner.wales)</a></p>

# Adroddiad Blynyddol y Gymraeg

2021-2022

## **Cynnwys**

Cyflwyniad .....	<b>3</b>
Safonau Cyflenwi Gwasanaethau .....	<b>4</b>
Astudiaeth Achos 1 .....	<b>9</b>
Safonau Gweithredu .....	<b>11</b>
Astudiaeth Achos 2 .....	<b>13</b>
Astudiaeth Achos 3 .....	<b>15</b>
Astudiaeth Achos 4 .....	<b>18</b>
Safonau Hybu .....	<b>20</b>
Astudiaeth Achos 5 .....	<b>24</b>
Safonau Llunio Polisi .....	<b>26</b>
Cwynion a dderbyniwyd .....	<b>28</b>
Dysgu Cymraeg a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg .....	<b>29</b>
Sgiliau Iaith .....	<b>32</b>
Camau Datblygu .....	<b>34</b>
Atodiadau .....	<b>35</b>



## Cyflwyniad

Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Y Gymraeg Cyngor Sir Gâr ar gyfer 2021/22. Dyma chweched blwyddyn o weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg a hynny mewn cyfnod o addasu ac ail-adeiladu yn dilyn cyfnodau clo ac aflonyddwch y pandemig. Parhawyd â'r Safonau uchel dros ben wrth ddarparu gwasanaethau ar-lein ac wrth gyfathrebu gyda'n trigolion. Cafodd ein gwaith cyfathrebu ei ddarparu yn unol â'r Safonau yn ddi-ffael, a hynny drwy gydol y stormydd a gafwyd, gyda'r rhybuddion tywydd a'r holl wybodaeth am gau ffyrdd yn cael eu darparu yn ddwyieithog ar draws ein platfformau ar y cyfryngau cymdeithasol, yr un pryd yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

Gyda nifer fawr o staff y cyngor sir yn dal i weithio gartref, aeth y gwaith o weithredu yn unol â'r Safonau yn ei flaen. Fe ymgorfforwyd ystyriaethau go iawn o'r Gymraeg i mewn i'r ffyrdd newydd o weithio, gan ganfod ffyrdd newydd ac arloesol o weithredu'n ddwyieithog yn fewnol yng ngweithrediadau'r cyngor yn ogystal ac wrth ddarparu gwasanaethau. Gwnaed y mwyaf o'r datblygiadau technegol oedd ar gael i annog defnydd o'r Gymraeg wrth weithredu.

Rydym yn hynod o falch o'r modd i ni roi'r Gymraeg yn nghanol y gwaith o ail-adeiladu gwasanaethau ac ailsefydlu prosiectau adfywio. Ceir nifer o enghreifftiau o brosiectau newydd i hyrwyddo'r Gymraeg yn ein gwaith o adfywio'r economi a'r gymuned yn dilyn COVID-19. Parhawyd gydag ymrwymiad llawn y Cyngor at y Strategaeth Hybu gan barhau i gydlynu'r Fforwm Sirol ac i arwain ar y gwaith o weithredu Cynllun Gweithredu'r strategaeth hybu. Ar ben hynny, cymrodd y Cyngor yr awenau yn y broses o asesu effaith y Strategaeth Hybu 2016-21 gan gasglu gwybodaeth eang a chyflawn ar sefyllfa'r Gymraeg o fewn ein cymunedau. Bydd yr adroddiad trwyadl sydd ar y gweill, ynghyd â'r data a ddaw o'r Cyfrifiad y flwyddyn nesaf yn rhoi darlun cyflawn i ni o sefyllfa'r Gymraeg yn y sir. Fe fydd yn sail cadarn i gynllunio ar gyfer y Gymraeg yn y dyfodol. Mae'r Cyngor eisoes wedi dechrau ar y gwaith o gydlynu ymdrechion i gynllunio i'r dyfodol ac i gychwyn ar y gwaith o lunio strategaeth hybu newydd ar gyfer y bum mlynedd nesaf.

Wrth gyflwyno'r adroddiad hwn, mae'n rhaid cydnabod gwaith di-flino y Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths, oedd yn gyfrifol am bortffolio'r Gymraeg, Twristiaeth, Diwylliant a Hamdden ar y Cabinet yn ystod cyfnod gwaith yr adroddiad hwn. Edrychaf ymlaen at barhau â'r un dyncwch gyda gwaith darparu, datblygu a hyrwyddo'r Gymraeg fel aelod portffolio y Gymraeg ac Addysg yn y cyfnod nesaf.

Y Cynghorydd Glynog Davies

Aelod Cabinet

## Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

### Sicrhau cydymffurfiaeth gyffredinol

Mae'r ddarpariaeth gynhwysfawr o ohebu, darparu gwasanaeth ffôn, tudalennau gwe a'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg ac yn unol â'r Safonau yn gadarn yng ngweithrediadau'r Cyngor ers blynnyddoedd bellach. Rydym yn gwneud ymdrechion parhaus fodd bynnag i sicrhau bod y staff yn parhau gyda'r safonau uchel ac hefyd yn darparu yn unol â'r Safonau yn y sefyllfaoedd mwyaf cymhleth a dyrys. Defnyddir amrywiaeth o ddyddiau arbennig i atgoffa staff o'u dyletswyddau, ar y fewnwyd. Ar ddiwrnod *Mae gen i Hawl*, er enghraifft, atgoffwyd pawb o'r angen i gael trefniadau cadarn yn eu lle ym mhob adran ac fe'u cyfeiriwyd at y Safonau ar y wefan ac at y canllawiau cynorthwyol ar y fewnwyd.



Ffigur 1: Hysbysiad ar ddiwrnod Mae Gen i Hawl

Er mwyn osgoi unrhyw lithriadau wrth drosglwyddo galwadau ffôn Cymraeg i adrannau penodol, rydym wedi sefydlu system newydd eleni lle mae'r Ganolfan Gyswilt yn cadw cofnod o ddewis iaith galwadau sy'n dod i mewn am ymholiadau mwy penodol, neu arbenigol. Mae cadw'r cofnod yma at y system yn galluogi'r ganolfan gyswilt i sefydlu'r dewis iaith gyda'r adran benodol wrth drosglwyddo'r alwad fel nad oes yn rhaid i'r cwsmer ail-sefydlu ei ddewis iaith gyda'r staff arbenigol.

Eto, er mwyn osgoi unrhyw lithriadau mewn sefyllfaoedd mwy cymhleth, fe luniom ganllaw newydd ar ffurf siart llif, sy'n manylu ar sefyllfaoedd amrywiol posib lle bydd angen gohebu'n Gymraeg (gweler Atodiad 1). Lluniwyd yr adnodd hwn ar y cyd rhwng Arweinwyr Iaith Adran yr Amgylchedd a'r Tîm Polisi, mewn ymateb i adborth o'r Adran ynglŷn a gweithdrefnau. Yn ogystal, crëwyd rhestr wirio newydd, cyffredinol ar gyfer gohebu yn dangos holl anghenion y Safonau ar gyfer Arweinydd iaith yr Is-adran Dai, ac fe'i rannwyd ymysg yr holl Arweinwyr Iaith er mwyn iddynt ledaenu'r negeseuon sylfaenol yma yn eu hadrannau'n rheolaidd. Parhawyd gyda'r drefn o ddarparu hyfforddiant drwy gyflwyniad i adrannau ar ofynion y Safonau a'r cymorth sydd ar gael i staff wrth ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog e.e. cyflwyniad i dîm rheoli a swyddogion trydydd haen yr Adran Addysg ym mis Chwefror eleni.

Er mwyn sicrhau rhwydwaith o staff sydd â dealltwriaeth mwy cynhwysfawr o'r Safonau sy'n medru bod yn eiriolwyr ar ran darparu'n Gymraeg o fewn yr adrannau, cynhaliwyd hyfforddiant arall ar gyfer carfan newydd o arweinwyr iaith o'r Adran Cymunedau yn bennaf. Cynhaliwyd 4 sesiwn o 2 awr ar ymwybyddiaeth y Gymraeg a'r Safonau yn ystod Ebrill 2021 a hynny ar gyfer 30 o aelodau o staff (gweler Astudiaeth Achos 1).

Roedd canlyniadau Sir Gâr yn Arolwg Ansawdd y Comisiynydd yn dynodi cydymffurfiaeth lwyr o ran darparu gohebiaeth, dogfennau, ffurflenni, negeseuon cyfryngau cymdeithasol a thudalennau gwe. Cafwyd cyfarfod gyda'r swyddog cyswllt yn mis Ionawr i drafod y dystiolaeth ac roedd yn gyfle i'r Cyngor nodi materion sy'n llesteirio cydymffurfiaeth fel defnydd y fframwaith caffael a bennir gan y llywodraeth. Mae'r fframwaith yn gwrthod derbyn mewnbynnu gwybodaeth mewn dwy iaith ac felly mae'n amhosib i ni ddarparu hysbysebion am dendro yn Gymraeg ar y wefan. Nodwyd bod angen diwygio'r wybodaeth am y weithdrefn gwyno ar ein gwefan, gan gynnwys cyfeiriad mwy cadarn at gwyno yn erbyn y Safonau, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lwyr.

### **Digwyddiadau Cyhoeddus: Safon 35 a 36**

Enghraifft o ddarparu'n unol â'r safonau mewn modd trwyadl ac effeithiol yn dilyn cyfnod segur y pandemig yw ein Gwobrau Chwaraeon Actif Sir Gâr. Wedi dwy flynedd o saib, cynhaliwyd y digwyddiad cyhoeddus i ddathlu cyfraniadau unigolion a grwpiau yn y maes chwaraeon yn y sir. Paratowyd holl ddeunyddiau marchnata'r digwyddiad yn ddwyieithog, gan gynnwys [clipiau fideo](#) o'r rhestr fer sy'n cael eu rhannau ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar y noson. Trefnwyd y clipiau fideo gyda troslais Cymraeg a Saesneg am yn ail ac is-deitlau Saesneg ar y clipiau Cymraeg.



*Ffigur 2: Deunydd marchnata y Gwobrau*

Roedd yr holl ddeunyddiau marchnata, baneri hyrwyddo a gwaith electroneg yn ddwyieithog, yn ogystal a'r rhaglen a chafwyd cadeirydd gwadd, sef Nigel Owens, i annerch y gynulleidfa ar y noson, yn ddwyieithog. Roedd y cadeirydd yn holi'r enillwyr a oedd yn siaradwyr Cymraeg, yn ddwyieithog er mwyn rhoi cyfle iddynt i ymateb yn Gymraeg.

Mae'r is-adran Dai yn cynnal digwyddiadau i'r Fforwm landlordiaid, i drosglwyddo negeseuon pwysig i'r sector, yn weddol rheolaidd. Fel arfer, gwneir hyn drwy sioeau teithiol, ond oherwydd COVID-19 cynhaliwyd yr un cyntaf ers cyfnod eleni, a hynny ar Zoom. Darparwyd yr holl ddeunyddiau marchnata'n ddwyieithog ac hysbyswyd pawb a dderbyniodd wahoddiad y byddai croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y

digwyddiad. Darparwyd cyfieithydd ar y pryd, a darparwyd yr holl sleidiau ar gyfer y digwyddiad yn ddwyieithog.



Ffigur 3: Hysbyseb cyfryngau cymdeithasol

Mynychodd 85 o aelodau o'r cyhoedd y sesiwn wybodaeth, ac fe gafwyd amryw gyfraniad yn y Gymraeg. Er nad ydy cadeirydd y fforwm, sydd yn landlord preifat, yn medru'r Gymraeg, roedd y swyddog arweiniol wedi sicrhau ei fod yn tynnu sylw at y ffaith y byddai croeso i ddefnyddio'r Gymraeg. Cyflwynodd yr Aelod Portffolio ar ran y Cabinet y Cyngor, a oedd yn westai ar y fforwm, ei haraith yn Gymraeg a chafwyd sylwadau atodol gan un o landlordiaid preifat y sir yn Gymraeg.

#### **Ymgynghori: Gohebu, dogfennau ymgynghori a chyfarfodydd. Safonau 4-7, 27-29, 44.**

Cwblhawyd Asesiad Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn ystod y flwyddyn. Arweiniwyd y gwaith gan dîm y BGC a chafwyd cydweithrediad â chydweithwyr rhanbarthol yng Ngheredigion a Sir Benfro a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol drwy gydol y flwyddyn, yn enwedig yn y camau ymgysylltu a dadansoddi data.

Datblygwyd arolwg rhanbarthol a oedd yn fyw o ddechrau mis Awst i ddechrau mis Hydref. Roedd yr arolwg ar gael yn Gymraeg, ar-lein gyda ffurflenni printiedig hefyd ar gael a fersiwn hawdd ei darllen. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu yn ystod y cyfnod hwnnw gan gynnwys gweithdy penodol gydag aelodau'r Fforwm Sirol Strategol yn edrych ar y ffactorau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol a'r Gymraeg a sut gallai'r BGC uchafu ei gyfraniad drwy'r Amcanion Lles ar gyfer 2023-28.

Yn ogystal, cafwyd sgorsiau gyda nifer o ysgolion, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg, ar draws y sir, er mwyn bod llais Cenedlaethau'r Dyfodol yn gryf o fewn yr Asesiad.

## Cyfathrebu: Deunyddiau cyhoeddusrwydd neu wybodaeth, a gwefan. Safon 37-38, 43, 46-49, 52-58.

Fel rhan o'n strategaeth dwristiaeth, sefydlwyd prosiect sy'n bartneriaeth ryngwladol gyffrous gyda chynghorau sir yng Ngheredigion, Wexford, Waterford a Wicklow yn ogystal â Pharc Cenedlaethol Sir Benfro. Mae [Llwybrau Celtaidd](#) yn enghraifft dda o weithredu yn unol â'r Safonau. Darparwyd pob elfen o'r gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog (neu yn yr achos yma mewn tair iaith). Crëwyd deunyddiau fideo marchnata cyfoes yn defnyddio technegau dylunio'n ddwyieithog, gan drin y Gymraeg yn gwbl gyfartal â'r Saesneg. Ond, yn ogystal â darparu'r prosiect yn ddwyieithog, mae'n brosiect sy'n hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan ganolog o'r prosiect gan dynnu sylw at yr iaith, ynghyd â diwylliant a threftadaeth y sir, fel rhywbeth i ymfalchïo ynddi, ac yn wir i'w werthu, i ddenu bobl i'r sir. Er mwyn sicrhau plattform i'r Gymraeg yn y prosiect hwn, ychwanegwyd cymalau penodol i'r gwaith papur tendro (gweler isod yn Safonau Polisi). Wedi gohirio tipyn ar y gwaith o achos y pandemig, dechreuwyd ar ail gam y prosiect eleni. Mae trefniadau ar waith ar hyn o bryd i sefydlu grwpiau thematig o fusnesau twristiaeth i gyd-ddylunio a datblygu cynhyrchion a phrofiadau sy'n cyd-fynd â themâu Llwybrau Celtaidd, sy'n cynnwys diwylliant a threftadaeth Geltaidd, ac fe fydd cyfle i'r busnesau fynd ar 'deithiau dysgu' rhwng Cymru ac Iwerddon. Mae'n fwriad hefyd i gydweithio ar gysyniadau twristiaeth yn ymwneud yn fwy penodol gydag iaith yn y dyfodol agos.

### Darparu Cyrsiau Addysg: Safon 84

Mae'r Is-adran Drafnidiaeth a Phriffyrdd yn darparu cyrsiau gyrru yn Gymraeg ar gyfer gyrwyr aeddfed, a hyfforddiant gyrru uwch ar gyfer pobl ifanc. Maent yn marchnata'r cyrsiau i gyd ar y cyfryngau cymdeithasol, y wefan a'r cylchlythyr 'heneiddio'n dda', ac yn nodi pa sesiynau sy'n cael eu darparu'n Gymraeg. Mae'r mynychwyr yn derbyn hyfforddiant ar-lein a mewn person yn Gymraeg gan naill ai arbenigwyr llawrydd neu staff y cyngor. Mae'r adran hefyd yn hyrwyddo'r cyfleoedd i ddarparu ar gyfer hyfforddwyr llawrydd yn Gymraeg.



Ffigur 4: Hysbyseb am hyfforddwyr llawrydd

Yn yr un modd, mae'r Is-adran Hamdden yn darparu hyfforddiant Triathlon, seiclo ac athletau yn Gymraeg. Wrth osod gofyniad iaith digonol ar y swyddi gwag, mae'r 3 aelod o staff newydd yn medru darparu cyrsiau i hyfforddi'r hyfforddwyr yn Gymraeg i staff yr ysgolion Cymraeg, yn ogystal a'r ôl ofal yn dilyn yr hyfforddiant. Er enghraifft, mae'r swyddog datblygu athletau, a benodwyd gyda chyllid adfer ar ôl COVID-19, yn darparu rhaglen 0 – 2k yn Gymraeg i ysgolion Gymraeg yr ardal, i'w paratoi ar gyfer gweithgaredd Parkrun newydd i blant sy'n cael ei sefydlu yn Rhydaman. Mae'r swyddog datblygu triathlon yn sefydlu prosiect peilot i gyflwyno triathlon i blant ysgolion cynradd mewn dwy ysgol gynradd, ac mae un o'r rheiny'n ysgol cyfrwng Cymraeg.

'Cafodd Ysgol Ffwrnes y cyfle i weithio gyda Miss Amy Rees o Brifysgol Caerdydd, Guto Morgans o Actif Sir Gâr a Amy Jenner o Triathlon Wales dros gyfnod o 4 mis i godi ymwybyddiaeth o, ac i wella sgiliau triathlon disgyblion Blwyddyn 4 Ysgol Ffwrnes. Roedd yr holl broses o'r dechrau i'r diwedd yn un hynod o bleserus ac wedi cael effaith positif iawn ar bob un o'r disgyblion. Roedd y ffaith fod Guto ar ddiwedd e-bost i rhoi unrhyw gyngor ar y sesiynau neu ar gael i gymryd sesiynau yn Gymraeg yn gymorth arbennig. Roedd y disgyblion i gyd wedi gwella elfennau triathlon ac fe gymero' nhw rhan mewn duathlon heriol ar ddiwedd yr uned. Hoffem ddiolch i Guto am ei gymorth trwy gydol yr uned.

**Steff Rogers (Cydllynydd Addysg Gorfforol Ysgol Ffwrnes)**

## Astudiaeth Achos 1: Hyfforddi Arweinwyr Iaith

### Cefndir

Mae'r rhwydwaith o Arweinwyr Iaith o fewn y Cyngor Sir yn allweddol ar gyfer sicrhau ein cydymffurfiaeth i'r Safonau. Mae'r staff sy'n cael eu henwebu gan eu rheolwyr a'u hyfforddi i fod yn Arweinwyr Iaith yn lladmeryddion ar gyfer y Gymraeg o fewn eu adrannau. Mae'r hyfforddiant y maent yn derbyn yn eu hannog i atgoffa'u cydweithwyr o ddisgwyliadau'r Safonau yn eu gwaith pob dydd. Ond, mae'r cylch o staff yn troi'n gyson o fewn sefydliad mor fawr a'r cyngor, ac mae arweinwyr iaith yn aml naill ai'n gadael eu swyddi neu'n pylu yn eu hymrwymiad i'r rôl am amryw o resymau, yn bennaf yn ymwneud â phwysau gwaith. Roedd hyn yn arbennig o wir am ein arweinwyr iaith yn yr Adran Gymunedau.

### Datrysiaid

Gan ein bod bellach yn darparu'r hyfforddiant i'r arweinwyr yn fewnol yn hytrach na chomisiynu darparwr allanol, roedd modd i ni wneud nifer o newidiadau ymarferol wrth drefnu, gan ddysgu o'r hyfforddiant yn y gorffennol. Yn gyntaf, trefnwyd yr hyfforddiant ar-ein o achos yr amgylchiadau gwaith newydd, a sicrhawyd mai dwy awr oedd hyd pob sesiwn er mwyn creu amgylchiadau addas ar gyfer gweithredu ar-lein.

O ddysgu o'r ymdrechion yn y blynyddoedd a fu, sicrhawyd bod swyddog gweinyddol o'r Adran Gymunedau yn gyswllt ymarferol rhwng y swyddog polisi oedd yn hyfforddi, fel bod yr adran ei hyn yn cymryd cyfrifoldeb, yn ysgwyddo'r faich weinyddol ac yn gweithredu mewn modd oedd yn gyfarwydd i'r staff dan sylw.

Yn olaf, cadwyd cysylltiad gyda rheolwyr llinell y staff a gafodd eu hyfforddi er mwyn sicrhau eu bod yn deall pa hyfforddiant roeddent wedi derbyn, beth oedd potensial eu rolau newydd a cheisio annog y rheolwyr i gefnogi'r staff wrth iddynt weithredu dros y Gymraeg o fewn yr adran.

Bore Da. Dim ond nodyn byr i'ch diweddarau ar sefyllfa Arweinwyr Iaith eich adran.

O'r 22 o staff Adran Gymunedau a dderbyniodd hyfforddiant Arweinwyr Iaith yn ystod y mis diwethaf, roedd 6 yn dod o'ch adran chi.

Cwblhaodd Rhys Jones, Oliver Smart a Catrin Walters o dîm Adele, Celyn Bowen a Nia E Owens o dîm Les a Maria Brookfield o dîm Jonathan yr hyfforddiant. Nid oedd pawb yn gallu mynychu pob sesiwn, ond fe ddarparwyd recordiad o bob sesiwn i'r rhai oedd yn absennol. (Mae Maira Tucker yn barod yn Arweinydd iaith yn eich adran)

Dyma oedd cynnwys y sesiynau 2 awr:

Sesiwn 1: Ni, y Gymraeg a'n hanes

Sesiwn 2: Y Gymraeg yn sir Gâr

Sesiwn 3: Safonau Cyflenwi Gwasanaeth

Sesiwn 4: Safonau Gweithredu a gweithredu fel Arweinydd iaith

Mae'r 6 uchod bellach yn deall gofynion y Safonau ac yn gwybod ble i gael hyd i gefnogaeth ar y fewnwyd a'r we i sicrhau bod staff yn cadw at y rheolau ynglŷn â darparu gwasanaethau a gweithredu yn Gymraeg. Gobeithio y byddwch yn gweld bod eu gwybodaeth newydd yn gallu helpu i wella gweithdrefnau o fewn yr adran a fydd yn amddiffyn yr adran ymhellach rhag cael cwynion drwy Gomisiynydd y Gymraeg. Maent bellach yn deall yr angen a'r modd o hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y sefydliad a thu hwnt a chynghori staff ar ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Gobeithio y byddwch yn gwneud defnydd o'ch Arweinwyr Iaith newydd ac yn rhoi cefnogaeth iddynt wrth iddynt fagu hyder. Rydyn ni, yn yr uned bolisi yn edrych ymlaen i weithio yn agosach gyda nhw yn ystod y blynyddoedd i ddod.


Y peth cyntaf a fyddai o fydd iddynt fyddai os oedd modd hysbysu'r staff yn yr adran o'u rolau newydd drwy ebost, cylchlythyr neu ddatganiad mewnol o ryw fath,

*Ffigur 5: E-bost i reolwyr yn dilyn yr hyfforddiant*

## Canlyniad

Cafodd 20 o staff o is-adrannau tai, perfformiad, gwasanaethau integredig, gofal cymdeithasol oedolion a gwasanaethau cefnogaeth busnes eu hyfforddi dros 4 sesiwn o ddwy awr. Addaswyd yr holl adnoddau i weithio ar-lein gyda gwaith grŵp mewn ystafelloedd trafod llai a chwisiau Kahoot rhyngweithiol. Cafwyd adborth oedd yn nodi bod 100% o'r mynychwyr yn hyderus neu'n hyderus iawn o ran cyd-destun hanesyddol yr iaith Gymraeg, cyd-destun gwarchod ieithoedd leiafrifol a chyd-destun dwyieithrwydd Sir Gaerfyrddin a 100% yn nodi bod eu hagwedd yn bositif tuag at y Gymraeg a'r angen i'w hyrwyddo ers mynychu'r cwrs. Yn dilyn yr hyfforddiant, aeth nifer o'r arweinwyr iaith newydd ati ar unwaith i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn eu his-adrannau, gan gynnwys un a anfonodd crynodeb o'r hyn oedd angen atgyfnerthu o fewn y timoedd i sicrhau cydymffurfiaeth, ac a anfonodd atgoffyn am anghenion gohebu'n ddwyieithog at eu rheolwr i'w gylchredeg.

Sefydlwyd sianel *Teams* i'r arweinwyr iaith i gadw mewn cysylltiad gyda nhw ac i ddarparu gwybodaeth cyson iddyn nhw am gyfleodd mewnol i ddysgu Cymraeg, i ddefnyddio'r Gymraeg ac i rannu adnoddau gyda nhw am y Safonau.



Ffigur 6: Cwis Kahoot demograffeg y Gymraeg

## I'r dyfodol

Nid ysgogodd y sianel *Teams* y lefel o ryngweithio ac ymgysylltu ag yr oeddwn wedi bwriadu. Mae hyn yn ystyriaeth i'r Tîm Polisi yn y dyfodol agos, wrth i ni gynllunio i gynnig ôl ofal mwy cyson i'r arweinwyr iaith ar ôl yr hyfforddiant.




## Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu

Gwnaed ymdrechion o'r newydd eleni i sicrhau fod modd i staff y Cyngor weithredu'n Gymraeg ac i annog a hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn y gweithle, gan ystyried y ffyrdd newydd o weithio yn dilyn y pandemig.

Sefydlwyd grŵp strategol o dan arweinyddiaeth Cyfarwyddwr yr Adran Gymunedau i ystyried effaith y pandemig ar ffyrdd newydd o weithio; ar ein hasedau, yr adeiladau, y strwythurau TG, ein polisiau recriwtio a pholisiau cefnogi staff. Defnyddiwyd y teclyn Asesu Effaith Integredig wrth wneud y gwaith cynllunio yma, sy'n cynnwys ystyried effaith y penderfyniadau arfaethedig ar nifer y siaradwyr Cymraeg ac ar ddefnydd y Gymraeg yn fewnol ac yn gymunedol. Yn ogystal, bwydwyd yr ymchwil a wnaed gan Brifysgol Bangor ar effaith gweithio gartref ar y Gymraeg i mewn i'r corff o dystiolaeth ar gyfer y gwaith cynllunio ac ystyriwyd y Gymraeg hefyd yn unol â'r amcan llesiant am yr iaith a diwylliant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn hytrach na chyfathrebu gweithdrefnau newydd yn dilyn y pandemig yn ysgrifenedig yn unig, trefnwyd weminar gyda'r Prif Weithredwr yn annerch y staff. Roedd y weminar yn ffordd newydd o ddarparu gwybodaeth i staff am natur y newidiadau i'w cyflogaeth a'u trefniadau gwaith ac, yn unol â'r Safonau ac mewn ymdrech i annog defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, arbrofwyd yn llwyddiannus dros ben gyda darparu'r wybodaeth yn ddwyieithog, ac mewn modd oedd yn sicrhau nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg (gweler Astudiaeth Achos 2).

Gwnaed gwaith cyfathrebu mewnol, yn ogystal, i drosglwyddo'r wybodaeth am bosibiliadau defnyddio teclyn 'Microsoft Translator'. Er mwyn annog defnydd y staff o'r Gymraeg yn eu gwaith, hyrwyddwyd darpariaeth y cyfieithydd peirianyddol ar ein fewnwyd ac yn y cylchlythyr staff canolog. Sicrhawyd fod staff yn deall eu gyfyngiadau o safbwynt darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd gan atgyfnerthu'r cyfarwyddwyd i ddefnyddio'r uned gyfieithu i sicrhau cysondeb a chywirdeb o safbwynt cyfathrebu gyda'r cyhoedd. Ond hyrwyddwyd y posibiliad o ddefnyddio 'Microsoft Translator' ar gyfer gweithio'n ddwyieithog yn fewnol, gan gyfeirio staff at y canllawiau sydd eisoes ar y wefan ar gyfer cyngor ar sut i'w ddefnyddio.



Ffigur 7: Datganiad cylchlythyr staff

Adroddwyd llynedd (Adroddiad Blynyddol 2020-21) ein bod wedi cefnogi a chyfrannu i arolwg Prifysgol Bangor ar effaith y ffyrdd newydd o weithio ar ddefnydd gweithluoedd o'r Gymraeg. Eleni, sefydlwyd y Clwb Clebran, sef cyfle i staff y Cyngor glywed a defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ar-lein (gweler Astudiaeth Achos 3).

Cododd cyfle, wrth drefnu seminar i holl staff yr is-adran TG a Pholisi, yn adran y Prif Weithredwr, i gynyddu defnydd y Gymraeg yn fewnol wrth arbrofi gyda threfniadau'r grwpiau trafod yn yr ystafelloedd drafod. Am y tro cyntaf, defnyddiwyd y wybodaeth o awdit sgiliau iaith y Cyngor i adnabod yr holl staff sydd ar lefel 3 neu uwch a'u gosod yn ddi-odyn mewn grwpiau trafod Cymraeg, gyda hwylusydd Cymraeg. Ni chafwyd unrhyw adborth negyddol o'r arbrawf ac fe weithiodd y grwpiau'n llyfn. Cynhaliwyd dau grŵp trafod Cymraeg a dau Saesneg yn y bore a un Cymraeg ac un Saesneg yn y prynhawn. Yn y gorffennol, byddai staff wedi cael dewis opsiwn Cymraeg neu Saesneg ac ni fyddai cymaint wedi dewis yr opsiwn Cymraeg. Byddai rhai'n meddwl nad oedd eu Cymraeg yn ddigon da i drafod y gwaith yn Gymraeg, byddai rhai hefyd yn anfoddog am nad oeddent eisiau gweithio gyda'r un bobl o hyd. Profodd yr arbrawf yn llwyddiannus a byddwn yn lledaenu'r arfer ar draws y Cyngor yn y dyfodol. Yn ogystal, cafwyd cyflwyniad gan swyddog o Lywodraeth Cymru i drafod datblygiadau TG a'r Gymraeg, a chafwyd trafodaeth am y Gymraeg yn y sesiwn drafod dilynol.

Gwnaed gwaith sylweddol yn ystod y flwyddyn hon i baratoi at raglen o ddatblygu capasiti adrannau o fewn y cyngor i weinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg. Wedi ymchwilio i ymdrechion tebyg gan gyrff cyhoeddus yn y gorffennol a chynnal cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, aed ati i greu fframwaith Newid Arferion Iaith i grynhoi'r hyn sydd angen paratoi ar gyfer creu newid ystyrion ac eang o fewn gweithdrefnau adrannau penodol o fewn y Cyngor. Seliwyd y fframwaith ar syniadaeth newid ymddygiad a phrosiect Llais y Gymraeg ac ystyriwyd, yn ogystal, weithdrefnau a pholisiau penodol Cyngor Sir Gâr er mwyn sicrhau fod y newid yn un parhaol. Lluniwyd cynllun gweithredu hefyd i symud y rhaglen yn ei flaen. Erys cryn waith i wneud cyn cychwyn ar y newidiadau go iawn. Y bwriad yw i greu rhwydwaith o ymyraethau i gynorthwyo newid arferion gwaith grwpiau penodol o staff, ac er mwyn cynllunio'r gwaith yma, mae'n fwriad i wneud gwaith ymchwil i ganfod cyfleoedd a heriau ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor o bosib.

## Astudiaeth Achos 2: Digwyddiad y Prif Weithredwr

### Cefndir

Mae cyfleu negeseuon cyson a gwybodaeth glir i holl staff y Cyngor yn un o flaenoriaethau Wendy Walters, ein Prif Weithredwr, ac wedi'r cyfnodau clo, roedd yn awyddus i amlinellu gwaith y cyfnod heriol hynny ynghyd â chyflwyno cynlluniau ar gyfer gweithio o bell ac yn y swyddfeydd yn y dyfodol. Oherwydd patrymau gwaith, roedd yn rhaid gwneud hyn yn rhithiol ac fe gynhaliwyd y weminar yn gwbl ddwyieithog, gan osod esiampl a chynsail ar weithredu'n ddwyieithog a defnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn y gweithle.

### Datrysiad

Penderfynwyd defnyddio fformat newydd, rhithiol o gyflwyno ac, er mwyn sicrhau awyrgylch ymlacedig, comisiynwyd Marc Griffiths i gynnal sesiwn holi ac ateb gyda Wendy Walters, ein Prif Weithredwr. Cynhaliwyd y cyfweiliad yn bennaf yn Gymraeg gydag is-deitlau Saesneg. Recordiwyd y cyfweiliad o flaen llaw er mwyn medru ei ddarlledu ar-lein ar adegau gwahanol, er mwyn ymgysylltu gyda staff ar draws patrymau ac oriau gwaith. Er hynny, roedd fel petai'n fyw gyda chyfle i staff i ofyn cwestiynau yn y 'sgwrs' yn Teams. Trefnwyd bod modd gwneud hyn yn Gymraeg hefyd, gyda staff wrth law i ateb ym mha bynnag iaith a ddefnyddiwyd wrth holi.



Ffigur 8: Sgrin lun o gyfweiliad y Prif Weithredwr

## **Canlyniad**

Llwyddwyd i normaleiddio'r iaith drwy gynnal y cyflwyniad fel hyn. Mae'n arbrawf a dalodd ffordd yn bendant o ran amlygu'r Gymraeg. Petai cyflwyniad Saesneg a Chymraeg cael eu paratoi, byddai nifer o siaradwr Cymraeg di-hyder heb ddewis y fersiwn Gymraeg. Fel hyn, roedd pawb yn clywed y Gymraeg a, gydag is-deitlau, roedd modd i bawb ddeall y cyfan yn ddi-drafferth. Roedd hyn o fantais i ddysgwyr hefyd, ac yn gyfle iddyn nhw glywed y Gymraeg mewn cyd-destun gwaith.

Yn dilyn y digwyddiad byw, rhoddwyd y cyflwyniad ar y fewnrwyd i'r rhai oedd heb ei glywed i wyllo eto. Cynhaliwyd dau gyflwyniad arall ar yr un fformat, un ar gyfer athrawon ysgolion ac un ar gyfer gweithwyr llinell flaen, gyda negeseuon ychydig yn wahanol.

## **I'r dyfodol**

Mae hyn yn fformat y byddwn yn defnyddio yn y dyfodol, o bosib yn flynyddol.

## Astudiaeth Achos 3: Clwb Clebran

### Cefndir

Wedi sicrhau cyfraniad sylweddol staff y Cyngor i arolwg Prifysgol Bangor ar effaith COVID-19 ar ddefnydd o'r Gymraeg yn y gwaith, dadansoddwyd canlyniadau'r arolwg o safbwynt Sir Gâr yn benodol. Canfuwyd mai Sir Gâr brofodd y ganran uchaf o rai oedd yn defnyddio llai o Gymraeg ers dechrau gweithio o adref, ers y pandemig. O gymharu â siroedd eraill, roedd ein canran ni yn 10% yn uwch na Cheredigion oedd agosaf aton ni. Roedd angen gwneud rywbeth i geisio sicrhau nad oedd colli cyswllt wyneb yn wyneb gyda chydweithwyr yn cael effaith andwyol pellach ar ddefnydd ein staff o'r Gymraeg.

### Datrysiad

Er mwyn cynnal defnydd ein staff o'r Gymraeg, ac felly cynnal eu sgiliau a'u hyder yn eu sgiliau Cymraeg, fe benderfynwyd creu cyfle rheolaidd i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ar-lein. Cynhaliwyd y sesiwn cyntaf ym mis Medi ac yn dilyn adborth cadarnhaol, aed ati i greu hunaniaeth i'r sesiynau, gyda'r gobaith y byddai staff yn dechrau adnabod y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg wrth iddo gael ei farchnata'n fisol ar y fewnwyd ac yn y cylchlythyr staff.

### Medi'r Gymraeg



Ar ddydd Mawrth, Medi 28ain, fe fydd Andrew Tamplin, arbenigwr llesiant yn helpu ni i wynebu'r Hydref yn bositif!

Dyma'r cyntaf mewn cyfres o ddigwyddiadau misol ar lein i roi cyfle i holl staff y Cyngor i glywed ac i ddefnyddio'u Cymraeg yn anffurfiol.

Felly, rho awr i daflu dy hun i mewn i'r Gymraeg. Dyma gyfle i roi hwb i dy hyder i ddefnyddio'r Gymraeg a rhoi hwb i dy lesiant hydrefol ar yr un pryd.

Ewch i dudalennau [Be sy' mlaen](#) am rhagor o wybodaeth.

Os oes syniad gyda ti am rywun / rywbeth i glywed mewn digwyddiad Cymraeg ar lein, cysyllta gyda [iaithgymraeg@sirgar.gov.uk](mailto:iaithgymraeg@sirgar.gov.uk)

*Ffigur 9: Datganiad cylchlythyr staff*

Yn dilyn y sesiwn gychwynnol, aed ati i gasglu adborth ymysg yr Arweinwyr Iaith am enw i'r sesiynau misol. Cynhaliwyd pŵl opiniwn ar Teams a dewiswyd yr enw 'Clwb Clebran'. Aed ati


i wahodd siaradwyr pob mis wedi hynny, gan ganolbwyntio ar greu awyrgylch anffurfiol, sesiynau diddorol a siaradwyr difyr. Ceisiwyd cael rhai cyfranwyr proffil uchel ac hefyd rhai cyfranwyr gyda chysylltiad lleol i ddenu diddordeb staff. Eto, casglwyd syniadau ar themâu ar gyfer y sesiynau gan yr Arweinwyr Iaith a threfnwyd y sesiynau canlynol:

Mis	Thema	Siaradwr
Medi	Llesiant	Andrew Tamplin, Cana
Hydref	Chwaraeon a darlledi	Catrin Heledd
Tachwedd	Coginio: Paratoi ar gyfer y Nadolig	Lisa Fearn
Rhagfyr	Cwis Nadoligaidd	
Ionawr	Ffitrwydd a maeth	Catrin Brown a Sian Spencer
Chwefror	Garddio: paratoi ar gyfer y gwanwyn	Adam yn yr Ardd
Mawrth	Cwis Gŵyl Dewi	

Fe ddatblygwyd cynllun marchnata ar gyfer ceisio hyrwyddo mor eang â phosib ymysg staff a hefyd targedu staff penodol i'w hannog i sylweddoli perthnasedd y clwb iddyn nhw. Defnyddiwyd y fewnrwyd a'r cylchlythyr staff (gweler uchod), ac e-bostiwyd holl staff yr adran addysg drwy law'r Cyfarwyddwr Addysg, gan fod canran uchel o staff yr adran addysg yn medru'r Gymraeg. Defnyddiwyd y sianeli Teams ar gyfer arweinwyr iaith a mentoriaid a'u hannog nhw i'w farchnata yn ei sianelu nhw yn eu tro. Yn ogystal defnyddiwyd data'r arolwg sgiliau iaith i e-bostio pob aelod o staff sydd ar lefel 3 neu uwch i'w hysbysu o'r digwyddiadau. Yn olaf, e-bostiwyd y staff sy'n dysgu ar lefel canolradd ac uwch.

### Canlyniad

Mae nifer y mynychwyr wedi bod yn gyson drwy gydol y sesiynau, gyda tua 30 o fynychwyr pob tro. Yr hyn sy'n galonogol yw bod mynychwyr gwahanol yn taro i mewn pob tro hefyd, gyda rhai dyddiadau'n fwy cyfleus iddynt a hefyd rhai themâu yn apelio'n fwy i wahanol unigolion. Hyd yma, mae 108 aelod o staff unigol wedi mynychu'r sesiynau amrywiol. Mae defnyddio Teams wedi sicrhau mynediad i bawb sy'n gweithio'n hyblyg. Roedd rhai aelodau o staff a phreswylwyr cartref gofal y Cyngor wedi mynychu y sesiwn ar arddio, gan ei fod yn benodol o berthnasol iddyn nhw. Gwnaed defnydd gwych o dechnoleg yn y sesiwn gwis ar gyfer Gŵyl Dewi, gyda 9 tîm o adrannau'r cyngor, ac ystafelloedd llai a sleidiau ar 'Microsoft Forms' yn creu cwis ar-lein rhyngweithiol a hwylus.



Ffigur 10: Sgrin lun o'r cwis

## I'r Dyfodol

Mae'n hanfodol ein bod yn casglu momentwm y digwyddiadau yma drwy barhau i drefnu digwyddiadau o safon a pharhau i hyrwyddo'r digwyddiadau'n egniol. Yn y dyfodol, byddai modd cydweithio gyda gweithleuedd eraill gan fod mynychu ar Teams mor hwylus, ond byddwn ni ddim eisiau chwaith gollir'r nawys gyfeillgar, sy'n caniatáu cwestiynau ac ychydig o gyfraniad ar lafar yn ystod y digwyddiadau. Y gobaith yw ein bod yn creu cymuned croesawgar o staff sydd eisiau defnyddio'u Cymraeg, sy'n hyderus i ddefnyddio'u Cymraeg yn gymdeithasol, a hynny'n trosglwyddo i'w defnydd o'r Gymraeg wrth weithredu.

## Astudiaeth Achos 4: Rhaglen Codi Hyder 2021-22

### **Cefndir**

Mae'r ffaith fod staff Cyngor Sir Gâr, fel ein trigolion, yn tan-werthu eu sgiliau Cymraeg yn ddiagramheuol. Mae'r farn nad yw eu Cymraeg yn ddigon da i'w defnyddio yn y gwaith yn un sy'n cael ei leisio yn aml mewn cyfarfodydd, sesiynau hyfforddiant ac mewn sgysiau anffurfiol. Ers blynyddoedd, mae'r Cyngor wedi bod yn awyddus i roi cyfle i'r staff sy'n ddi-hyder i godi eu hyder fel eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg wrth weithredu ac wrth ddarparu gwasanaethau. Rydym yn grediniol, o godi lefel eu hyder ychydig, ac felly cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, bydd yr effaith ar eu sgiliau Cymraeg yn cynyddu, fel caseg eira.

### **Datrysiad**

Yn ystod 2021/2022 sefydlwyd rhaglen o hyfforddiant ar gyfer staff sydd yn rhugl yn y Gymraeg neu wedi dysgu, ond yn teimlo diffyg hyder i'w defnyddio yn y gweithle.

Darparwyd y cyrsiau canlynol:

- Rhaglen Codi Hyder
- Cwrs 1-Wythnos Ddwys
- Cwrs Gloywi Ysgrifenedig
- Gwella'ch Cymraeg Ysgrifenedig

Prif nod y cyrsiau yma yw rhoi cyfle i bawb sydd eisiau gwella eu sgiliau Cymraeg i codi hyder wrth ei ddefnyddio, p'un ar lafar neu yn ysgrifenedig.

### **Rhaglen Codi Hyder**

Darperir y rhaglen hon gan Dysgu Cymraeg Sir Gâr o dan cynllun Cymraeg Gwaith gyda'r nod o godi Hyder dros cyfnod o 12 wythnos. Mynychodd staff sesiwn anffurfiol gyda thiwtor o 'Cymraeg Gwaith Dysgu Sir Gâr' am 2 awr bob wythnos. Anelir y cwrs at staff sy'n deall Cymraeg, ond yn diffyg hyder i gynnal sgwrs ac ateb yn y Gymraeg. Fe wnaeth y tiwtor deilwra'r cwrs tuag at anghenion y grŵp.

### **Cwrs 1-Wythnos Ddwys:**

Cyflwynir y cwrs hwn yn rhithiol dros 5 diwrnod gan diwtoriaid profiadol o Nant Gwrtheyrn rhwng 10yb a 4yp. Yn ogystal â'r sesiynau dan arweiniad tiwtoriaid, mae'r cyrsiau'n cynnwys elfennau hunan astudio rhwng y sesiynau byw.

### **Cwrs Gloywi Ysgrifenedig:**

Darperir y cwrs yma gan 'Dysgu Cymraeg Sir Gâr' ar gyfer siaradwyr Cymraeg iaith Gyntaf a dysgwyr sy'n rhugl. Darperir ar-lein gyda chyfuniad o ddysgu ar-lein gyda thiwtor a gwaith ymarferol.

### **Gwella'ch Cymraeg Ysgrifenedig:**



Cwrs hunan astudio yw hwn, ond yn rhoi cyfle i staff codi hyder wrth ddefnyddio'i sgiliau Cymraeg ysgrifenedig. Mae'r cwrs yn cynnwys 10 modiwl, ac mae staff yn gallu ei gwblhau ar liwt / amserlen eu hunain.

### **Canlyniad**

Yn gyfan gwbl, mynychodd 60 aelod o staff y rhaglen codi hyder.

Fe wnaeth rhai staff elwa o'r elfen dysgu dwys, tra roedd y rhai a ddilynodd y rhaglen 10/12 wythnos wedi mwynhau'r elfen anffurfiol o ddefnyddio'r iaith yn hytrach na dysgu. Soniodd nifer eu bod wedi cymryd y cyfle yma er mwyn clywed mwy o'r Gymraeg ac i ymarfer eu sgiliau, cyfleoedd sydd wedi lleihau oherwydd ein ffyrdd newydd o weithio.

Codi Hyder	41
Gloywi	18
Defnyddio Cymraeg Gwaith	1

Rydym wedi derbyn adborth gan ein staff ac mae 100% wedi nodi eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ar ôl mynychu un o'r cyrsiau uchod. Yn bennaf mae'r staff wedi trosglwyddo'r dysgu yma i'w gwaith bob dydd, drwy:

- Deimlo yn fwy hyderus i siarad
- Anfon e-byst yn y Gymraeg
- Siarad gyda chydweithwyr
- Gofyn am gymorth prawf ddarllen dogfennau yn hytrach na threfnu cyfieithu ffurfiol.

### **I'r dyfodol**

Mae'r rhaglen codi hyder yma wedi bod yn hynod o lwyddiannus ac rydym yn cynllunio i'w gynnal yn ystod 2022-23.

## Cydymffurfio â'r Safonau Hybu

### Strategaeth Hybu a'r Fforwm Sirol

Ffocws y gwaith hybu eleni oedd cyflawni ein dyletswyddau mewn perthynas â'r Strategaeth Hybu. Roedd Strategaeth Hybu Sir Gâr yn ymestyn o 2016 hyd at 2021, ac felly gwnaed llawer o waith eleni ar gasglu gwybodaeth i greu adroddiad ar lwyddiant y strategaeth ac hefyd ar ddechrau'r gwaith o gynllunio'r Strategaeth newydd.

Er gwaethaf yr holl waith sydd wedi bod wrth yr adrodd a'r cynllunio, rydym wedi parhau gyda'r gwaith o hybu'r Gymraeg yn y sir. Cynhaliwyd cyfarfodydd Fforwm Strategol y Gymraeg drwy gydol y flwyddyn. Cynhaliwyd 6 cyfarfod, gan gynnwys un ychwanegol ar gais y Fforwm i gael mewnbwn ar brosiect datblygu economaidd benodol a arweinir gan y Cyngor Sir. Cynhaliwyd un arall ychwanegol ar ffurf gweithdy, i gynllunio ac adrodd ar y Strategaeth Hybu. Yna, gohiriwyd cyfarfod olaf y flwyddyn ariannol yn mis Mawrth er mwyn rhoi mwy o gyfle i'r gwaith adrodd fynd yn ei flaen.

- Mai 2021 – Cyfarfod ychwanegol ar brosiect adfywio 'Y Deg Tref' yn benodol
- Mehefin 2021 – Prentisiaethau
- Gorffennaf 2021 – Cyfarfod ychwanegol ar ffurf gweithdy i drafod adrodd a chynllunio
- Medi 2021 – Cynllunio ieithyddol ehangach – Blaenoriaethau Comisiynydd y Gymraeg
- Rhagfyr 2021 – Cynllunio ieithyddol ehangach – Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

### Dylanwadu ar bolisi cenedlaethol

Yn dilyn trafodaethau ar faterion ieithyddol yn y Fforwm, anfonodd y Cyngor lythyrau, ar ran y Fforwm, i geisio dylanwadu ar bolisiâu ar lefel genedlaethol yn y gobaith o ddiddymu rhai o'r rhwystrau sy'n atal ymdrechion i ddatblygu meysydd penodol o gynllunio ieithyddol yn y sir. Yn gyntaf, galwyd ar Lywodraeth Cymru i sbarduno mwy o ddatblygiad yn y maes 'prentisiaethau' er mwyn sicrhau fframweithiau cyfoes, Cymraeg ac aseswyr a dilyswyr Cymraeg, cymwys. Yn ail galwyd ar y Comisiynydd i gefnogi cais yr Awdurdod i Lywodraeth Cymru i sicrhau bod y broses o newid categori iaith ysgol yn dod o fewn Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn hytrach na'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, i adlewyrchu'r ffaith bod taith ysgol ar hyd y continwmm yn broses ac nid yn ddigwyddiad

Law yn llaw â thrafodaethau'r Fforwm, gwnaed gwaith trwyadl i gasglu data oddi wrth gyrrff sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir ar gyfer adrodd ar lwyddiant y Strategaeth Hybu a'r cynllun gweithredu. Casglwyd wybodaeth oddi wrth y Mentrau, y Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, y Mudiad Meithrin, adrannau amrywiol y Cyngor, Coleg Sir Gâr, yr Egin, Heddlu Dyfed Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, ac mae'r adroddiad yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd.

O dan faner y Fforwm Sirol a'r Strategaeth Hybu, cydweithiwyd yn agos gyda Menter Cwm Gwendraeth Elli yn ystod y flwyddyn i gynorthwyo gyda sefyllfa bregus y Gymraeg yn Llanelli. Yn hanesyddol, er mai'r Fenter sy'n bennaf gyfrifol am gynllunio ieithyddol yn y dref,

mae'r Fenter wedi cael mwy o ddylanwad yng Nghwm Gwendraeth a llai o ddylanwad yn nhref Llanelli. Ers i Ganolfan Y Lle gau yn y dref yn ogystal, roedd yna argraff cyffredinol fod angen tynnu partneriaid ynghyd i geisio cryfhau'r rhwydweithiau Cymraeg yn y dref, ac i geisio lledaenu'r cyfrifoldeb dros hyrwyddo'r Gymraeg i sefydliadau eraill o fewn y dref.

Ar y cyd gyda'r Fenter, sefydlwyd grŵp gweithredu ar gyfer trafod posibiliadau yn Llanelli ac fe luniodd y Cyngor holiadur SNAP i'r Fenter i weinyddu, i ganfod mwy am gyfleoedd a rhwystrau defnyddio'r Gymraeg yn Llanelli (gweler Atodiad 2). Yna, comisiynodd y Cyngor Catrin Llwyd i ddadansoddi'r holiaduron a gwneud gwaith ymgynghori pellach er mwyn llunio adroddiad a fyddai'n sail ar gyfer blaenoriaethau ar gyfer y grŵp gweithredu. Roedd yr adroddiad yn hynod o ddefnyddiol ac fe luniodd y Cyngor gynllun gweithredu wedi selio ar yr adroddiad, i'w gyflwyno i'r grŵp gweithredu. Yn dilyn hynny, sefydlodd y Fenter sianel Teams ar gyfer partneriaid y grŵp gweithredu. Yn y sianel, cedwir holl ddeunyddiau hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir, y cynllun gweithredu a'r adroddiad fel bod modd i bawb gael mynediad atynt a chadw golwg ar gynnydd wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Yn deillio o argymhellion yr adroddiad, mae'r Fenter yn cydweithio gyda Chyngor Tref a Chyngor Gwledig Llanelli ar hyn o bryd, i geisio denu cyllid ar gyfer cael swyddog benodol i weithio yn yr ardal, gyda'r prif waith o arwain gwaith y cynllun gweithredu yn ei flaen.


## **Y Gymraeg a'r Economi**

O fewn gwaith arferol y Cyngor, gwnaed cynnydd mwy nag arfer, yn ystod y flwyddyn hon, gydag integreiddio gwaith datblygu'r Gymraeg gyda'r gwaith adfywio economaidd. Comisiynwyd Cwmni Iaith i ddarparu sesiynau ymwybyddiaeth arbenigol ar y Gymraeg a'r Economi ym mhrosiectau llwyddiannus y Gronfa Adfywio Cymunedol (Llywodraeth y DU) er mwyn sicrhau eu bod yn deall pam a sut y mae angen hyrwyddo'r Gymraeg law yn llaw a'r economi ac er mwyn rhoi syniadau ymarferol ar sut i hwyluso a hybu defnydd o'r iaith ymhlith cleientiaid a rhanddeiliaid y prosiectau.

Un o'r prosiectau o dan adain Cronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU, yw'r gronfa 'Iaith Gwaith' a arweinir gan y Cyngor Sir. Mae 'Iaith Gwaith' yn darparu grantiau o hyd at £3,000 i gefnogi busnesau a sefydliadau cymunedol i godi proffil y Gymraeg. Mae'r gronfa wedi bod ar agor am geisiadau unwaith hyd yma. Cafwyd 11 o fusnesau llwyddiannus gan gynnwys Lido Brynaman, *Diod Llandeilo* a *Telgwen*, sy'n gwmni cludo cyfarpar adloniant byw. Bydd ffrwyth gwaith y grantiau i'w gweld y flwyddyn nesaf. Roedd y grantiau yma'n cyd-fynd gyda darpariaeth 'Helo Blod Lleol' Llywodraeth Cymru, gyda'r ddau swyddog yn Sir Gâr yn cael eu hannog i hyrwyddo'r grantiau fel rhan o becyn ehangach o gefnogaeth i ddarparu'n ddwyieithog. Gyda 'Helo Blod Lleol' yn dirwyn i ben, mae'r rhaglen Iaith Gwaith yn mynd i gaffael gwasanaeth debyg, i sicrhau sesiynau un i un o gymorth pellach ar gyfer pawb sy'n llwyddiannus gyda grant Iaith Gwaith.

Wrth sefydlu prosiect adfywio'r [Deg Tref](#), penodwyd swyddogion datblygu oedd yn medru'r Gymraeg a threfnwyd lle ar fyrddau gweithredu lleol y prosiect i'r Mentrau Iaith er mwyn sicrhau bod syniadau datblygu iaith yn cael eu bwydo i mewn i raglenni'r prosiect. Bydd rhaglenni gwaith y prosiect yn datblygu yn ystod y blynyddoedd nesaf ac, er na fydd gymaint o ddylanwad gan y Cyngor ar brosiectau penodol a gaiff eu datblygu wrth i'r Timoedd Cynlluniau Twf gymryd cyfrifoldeb o arwain y gwaith datblygu, byddwn yn dal i annog a

chefnogi rhaglenni sy'n annog defnydd y Gymraeg wrth ddatblygu'r economi yn y trefi marchnad. Mae'r byrddau gweithredu hefyd yn gorfod gweithredu yn unol â Safonau Iaith y Cyngor Sir gan mai'r Cyngor yw'r corff sy'n rhaeadru'r cyllid i'r prosiect.



Ffigur 11: Gwefan ddwyieithog rhaglen y 10 Tref


Dros gyfnod gwyliau'r Nadolig, fe wnaeth y Cyngor ddefnydd o adeiladau gwag yng Nghaerfyrddin a Llanelli gan agor siop sionc, ar gyfer cynnyrch lleol. Roedd stondinau amrywiol gan fusnesau lleol yn y lleoliadau, ac fe drefnwyd bod swyddogion 'Helo Blod Lleol' yn mynychu'r lleoliad ar ddyddiau penodol i gynorthwyo unrhyw fusnesau oedd yn dymuno datblygu elfen ieithyddol eu busnesau.

O ran y siopau pop-up, roedd yn fuddiol iawn i ni fod yno gan ein bod ni wedi cael sawl ymholiad tra bod ni yno am bethau fel gwersi Cymraeg, lanyards, arwyddion dwyieithog, cyngor cyffredinol ac roedden ni yn gallu ymateb iddyn nhw yn syth a delio gyda'r ymholiadau. Fe wnaethon ni dderbyn ymholiad cyfieithu arwyddion hefyd cyn y digwyddiad. Roedd rhai o'n hen fusnesau ni yno ta beth felly siawns dda i gael sgwrs gyda nhw eto.

Heledd Llwyd, Swyddog Helo Blod Lleol Gorllewin Sir Gar a Sir Benfro

Gwnaed cais llwyddiannus am gyllid o Gronfa Busnes Trawsnewid Trefi'r Llywodraeth i hyrwyddo mantais defnyddio'r Gymraeg mewn busnes. Dyfarnwyd y tendr i gwmni 'Sgript' i ddatblygu hyfforddiant ar-lein i fusnesau ac i becynnu'r hyfforddiant i'w ddefnyddio fel adnodd ar ôl y sesiynau. Hyrwyddwyd yr hyfforddiant i'r holl fusnesau y mae'r is-adran Adfywio yn cydweithio â nhw, ac i'r busnesau sy'n derbyn grantiau. Yn ogystal, fe'i hyrwyddwyd yng nghylchlythyr busnes y cyngor. Darparwyd 6 sesiwn hyfforddi i 43 o fusnesau. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys astudiaethau achos, fideos lleol a vox pops i egluro manteision busnes gweithredu'n ddwyieithog. Pecynnwyd yr hyfforddiant fel adnodd

ar-lein a gwnaed ymdrech benodol i sicrhau nad oedd yr adnodd yn dyddio. Fe fydd yn ymddangos ar wefan y Cyngor cyn hir.



*Ffigur 12: Cwmni Hyderus yn egluro manteision dwyieithrwydd*

Cydblethu'r ymdrechion: enghraifft wych o gydblethu ymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg a'r economi yn rhaglenni adfywio Sir Gâr oedd i fusnes oedd wedi mynychu sesiynau Sgript ac wedi gweld gwerth mewn defnyddio'r Gymraeg yn ei siop goffi newydd. Yn dilyn mynychu'r sesiwn, fe wnaeth gais am grant Iaith Gwaith, ac fe fydd ffrwyth y gwaith yma yn weledol yn nhref Caerfyrddin yn y dyfodol agos. Gwneir cyswllt hefyd rhwng Tymoedd Cynlluniau Twf y Deg Tref a'r cyfleoedd yma i hyrwyddo'r Gymraeg, a gobeithiwn y byddwn yn gweld enghreifftiau pellach o'r dylanwad hwn wrth i fusnesau o fewn y Deg Tref i fanteisio ar y grantiau Iaith Gwaith yn ogystal.

## Astudiaeth Achos 5 – Pentre Awel

### Cefndir

Mae Prosiect [Pentre Awel](#) yn brosiect adfywio gwerth miliynau sy'n bwriadu cynnig darpariaeth o'r radd flaenaf ym maes ymchwil meddygol a gofal iechyd gan gefnogi ac annog pobl i fyw bywydau egniol ac iach. Mae'r safle 83 erw yn Llanelli yn mynd i gynnwys canolfan hamdden, canolfan ymchwil, llety byw gyda chymorth a mwy. Mae'r Cyngor wedi ymdrechu i gynnwys y Gymraeg yn natblygiad y prosiect hwn o'r cychwyn. Mae'r holl waith caffael wedi cynnwys amodau ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog ac mae'r holl waith marchnata digidol wedi ei greu'n ddwyieithog o'r cychwyn. Yn amlwg, pan fo'r cwmnïoedd darparu yn eu lle, mae'n gallu bod yn anodd dylanwadu ar eu darpariaeth ymhellach na'r hyn y mae'r Safonau yn gofyn.

### Datrysiaid

Gwnaed ymdrechion ar gyfer hybu'r Gymraeg yn natblygiad y prosiect yma drwy gynnwys ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg ym mhob elfen o'r gwaith datblygu.



Ffigur 13: Sgrin fideo hyrwyddo Pentre Awel gydag is-deitlau hygyrch

Wrth benodi'r cwmni adeiladu ar gyfer y gwaith o adeiladu Parth 1 o'r datblygiad, sicrhawyd elfen gref o gyfrifoldeb buddion cymunedol i'r tendr. Rhoddwyd neges glir i'r cwmni rhyngwladol llwyddiannus, sef Bouygues, fod angen hyrwyddo'r Gymraeg wrth ddarparu'r buddion cymdeithasol ac fe benododd y cwmni siaradwr Cymraeg lleol i ddatblygu a darparu'r rhaglen o fuddion cymdeithasol. Mae'r Cyngor wedi sefydlu grŵp i ddatblygu a chraffu ar y gwaith o ddarparu'r elfen gymunedol hwn o'r contract ac fe sicrhawyd lle i Swyddog Datblygu'r Gymraeg ar y grŵp. Yn ogystal, cafwyd cyfarfod gyda'r swyddog datblygu o gwmni Bouygues i drafod y pwysigrwydd o weithredu'n ddwyieithog a'r posibiladau o ddatblygu cyfleoedd penodol i hyrwyddo'r Gymraeg wrth ddarparu rhaglen o fuddion cymdeithasol. Rhannwyd cysylltiadau partneriaid Cymraeg fel y Mentrau, y

Ffermwyr Ifanc a'r Ganolfan Ddysgu gyda Bouygues a darparwyd rhestr o gyfleoedd posib i hyrwyddo'r Gymraeg gyda nhw.

Yn ogystal, trefnwyd cyfarfod gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i drafod y posibiladau o gydweithio y gallai datblygiadau arfaethedig Pentre Awel gynnig. Yn dilyn y cyfarfod, gwahoddwyd y Coleg i gyfarfod arall er mwyn sicrhau ein bod yn trafod y posibiladau ar gyfer addysg pellach ac uwch gyda nhw, o ran ymchwil, prentisiaethau a hyfforddiant mewn swydd ayb. Y gobaith yw, y bydd y Cyngor o greu'r cysylltiadau yma gyda sefydliadau o'r sector Cymraeg, yn sicrhau fod datblygiadau Cymraeg penodol yn cael eu datblygu yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Wrth drefnu digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr, gwnaed yn siŵr, unwaith yn rhagor fod y gwaith hyrwyddo'n digwydd yn gwbl ddwyieithog.

Mae Bouygues UK yn cynnal digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr i drafod y cyfleoedd sydd ar gael

## Parth Un Pentre Awel

Mae Bouygues UK yn cynnal digwyddiad Cwrdd â'r Prynwr mewn partneriaeth â Chyngor Sir Caerfyrddin i drafod y cyfleoedd sydd ar gael ym Mharth Un Pentre Awel.

**30ain Mawrth 2022**

Digwyddiad cwrdd â'r prynwr: Parc Y Scarlet, Llanelli. Sesiwn Un: 8:30am – 12pm / Sesiwn Dau: 1:00pm- 4:30pm

Pentre Awel yw'r datblygiad cyntaf o'i gwmpas a'i faint yng Nghymru, gan ddod ag arloesedd gywyddor bywyd, gofal iechyd cymunedol a chyfleusterau hamdden modern at ei gilydd ar safle 83 erw Llynnoedd Delta ar arfordir Llanelli.

Bydd Parth Un yn elwa ar dros £70 miliwn o fuddsoddiad gan y sector cyhoeddus a bydd yn cynnwys cyfleusterau addysg, busnes, ymchwil, hamdden ac iechyd i ddarparu manteision cymdeithasol ac economaidd trawsnewidiol i bobl yn y rhanbarth.

Noder, O 1 Ionawr 2022, bydd Bouygues UK yn ei gwneud yn ofynnol i bob is-contractwr gael ei ddilysu yn y Safon Aseu Cyffredin (sy'n cyfateb i Safon Aur Constructionline) i'w ystyried ar gyfer cyfleoedd gwaith yn y dyfodol.

Bydd y digwyddiad hwn yn rhoi cyfle i'r gadwyn â ni ac i ni nodi cyfleoedd i gefnogi busnesau lle canlynol:

- Gorddrysau mnyediad
- Gwarchod Adar
- Gwaith brics
- Gwaith Adelladwyr- Gwasanaethau
- Gwaith coed
- Nentydau a Rhaniadau
- Tellis Ceramig
- Cladin Yn gyffredinol
- Ffenestri Cylfansawdd
- Lienfuriau
- Ecologydd
- Lloriau Epocsi
- Ffensiô
- Dodrefn a Ffittadau
- Diogelu Rhag Tân – Paent
- Chwyddedig
- Rhaniadau Gwydr
- Strwythurau Porth Glulam
- Toeau – Gwyrd
- Sylfeini
- Tirlunio Meddal
- Lifftau
- Louvers
- Mansafe
- Pwytio Mastig
- Grisiau Metel & Balistradio
- Drychau gwyr
- Peintio ac Addurno
- Pent
- Conc
- Llori
- Grisi
- Llori
- Ffrâf
- Atgy
- Grae
- Toea
- Toea
- Gole
- Flyn
- Dur
- Arwy
- Rhar
- Llori
- Toi S
- Drae
- Gwai
- Deci
- Topi
- Arwy
- Drae
- Cladi
- Llori
- Gatle
- Cwtb

Ffigur 14: Sgrin lun Cwrdd â'r Prynwr

Yn ogystal, gwahoddwyd swyddogion Helo Blod Lleol i fynychu'r digwyddiad ac ariannwyd taflen newydd at ddefnydd y dair Menter a'r Cyngor, gyda QR code arni i gyfeirio busnesau at lyfryn y Gymraeg mewn Busnes ar wefan y Cyngor.

### Canlyniad, ac i'r dyfodol

Amser a ddengys a fydd ymdrechion y Cyngor i integreiddio'r Gymraeg a'r economi yn dwyn ffrwyth. Fe fydd yn anodd i fesur ei effaith yn ogystal. Ond gydag chynllun Arfor 2 ar y gweill, rydym yn ffyddiog y bydd modd datblygu'r maes hwn fel bod pobl sy'n gweithio yn y maes adfywio yn Sir Gâr, boed yn gwmnïoedd lleol neu ryngwladol, yn deall nid yn unig bwysigrwydd y Gymraeg yn y sir, ond hefyd sut i hyrwyddo'r Gymraeg law yn llaw a'r economi er budd i'r busnesau a'r Gymraeg.

## Cydymffurfio â'r Safonau Llundio Polisi

### Safonau Llundio Polisi

Mae'r ddogfennaeth sy'n cael eu darparu i bob sefydliad sy'n ceisio am waith gan y Cyngor yn nodi'n glir bod angen sicrhau cydymffurfiaeth gyda Safonau Iaith y Cyngor. Ar ben hynny, mae'r dogfennau sy'n arwain staff drwy'r broses o gaffael gwasanaethau yn nodi fod yn rhaid cysylltu gyda'r Tîm Polisi i gael cyngor am y materion ynglŷn a'r Gymraeg sydd yn y broses tendro. Mae hyn yn gyfle i'r tîm roi cyngor ar y cyfleoedd o hybu'r Gymraeg o fewn y tendr yn ogystal â chydymffurfiaeth a'r Safonau Iaith. Yn y rhan yma o'r broses, mae'r swyddog yn gallu mynd i'r afael â'r gwasanaethau penodol sy'n cael eu caffael a rhoi cyngor arbenigol i gynorthwyo'r swyddog i adnabod cyfleoedd i osod amodau hybu'r Gymraeg mwy manwl ar y gwaith.

11. Equalities & Welsh Language	
Consider if the <b>Equalities</b> Act 2010 has been given 'due regard' in delivering the Service	Yes <input type="checkbox"/> No <input type="checkbox"/> <b>Please contact Llinos Evans, Policy &amp; Partnership Officer to discuss specific requirements.</b>
Consider whether the implications of delivering a fully <b>Bi-lingual</b> requirement <u>has</u> been given? (Councils are required to comply with the Welsh Language (Wales) Measure 2011)	Yes <input type="checkbox"/> No <input type="checkbox"/> <b>NB. The English and Welsh languages must be treated on a basis of equality. Please contact Llinos Evans, Policy &amp; Partnership Officer to discuss specific requirements.</b>

Figur 15: Geiriad presennol y ddogfen cofnodi tendr

Eleni rhoddwyd gyngor i amryw adrannau wrth iddynt baratoi dogfennau tendr, gan gynnwys gwaith ymchwil ar astudiaethau Adfywio Prif Drefi'r sir, llinellau ffôn cymorth o ran fflyd y Cyngor a chomisiynu meddalwedd newydd Adnoddau Dynol.

Er mwyn sicrhau ymhellach fod disgwyliadau i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn ogystal â darparu'n ddwyieithog yn cael eu trosglwyddo i'r sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar rhan y cyngor, rydyn ni'n cryfhau'r ddolen gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Nod Llesiant y Gymraeg o fewn y papurau tendro. Y bwriad yw i gyfeirio at y Safonau i sicrhau darpariaeth ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn cael ei drin yr un mor ffafriol a'r Saesneg, ond hefyd i gyfeirio at y nod llesiant, er mwyn sicrhau y gwneir gwaith pellach o hybu defnydd y Gymraeg ym mhob gwasanaeth ar ran y cyngor yn hytrach na dim ond cydymffurfio â'r Safonau.

Mae'r Nod Llesiant Cenedlaethol sy'n cyfeirio at 'Gymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', ac Amcan Llesiant y Cyngor o hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant hefyd wedi eu hintegreiddio i gynllunio busnes y Cyngor. Mae pob adran ac is-adran yn gorfod ystyried, wrth gynllunio, sut mae eu gwaith yn mynd i gyfrannu i'r amcanion llesiant.



Yng nghynllun busnes yr Isadran TG a Pholisi, cyflwynwyd set o fesuryddion newydd o ran y meysydd recriwtio, sgiliau iaith a chwynion. Bydd y mesuryddion yma yn ein cynorthwyo i fonitro ein gwaith yn gyson yn ystod y flwyddyn ariannol.

Cyfrannodd y Cyngor i nifer o ymgynghoriadau gan y Llywodraeth yn ymwneud â'r Gymraeg eleni, gan gynnwys Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg. Mynychodd swyddogion y Cyngor gyfarfod gyda Chyngor Sir Ddinbych i'w cynghori ynglŷn a gweithredu fforwm strategol sirol y Gymraeg. Cafwyd cyfarfod hefyd gyda changen hybu swyddfa'r Comisiynydd i rannu arbenigedd yn y maes polisïau cynllunio gyda'r swyddfa. Unwaith yn rhagor, tynnodd ein swyddogion cynllunio sylw at yr angen i ddiweddarau 'Rheoliadau Hysbysebu / Advertising Regulations' er mwyn hwyluso'r drefn o alw am arwyddion dwyieithog yn y broses gynllunio.

Mewn ymateb i rybudd gynnig i ailedrych ar drefniadaeth enwi tai a strydoedd, gwnaed gwaith ar y cyd rhwng yr Is-adran Gynllunio a'r Tîm Polisi i gryfhau dylanwad y Cyngor ar warchod enwau Cymraeg a hanesyddol yn y sir. Wedi ymchwilio i bolisïau siroedd eraill, drafftwyd bolisi enwi tai a strydoedd newydd a fydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd ac wedyn i'r Cyngor llawn ar gyfer cymeradwyaeth. Bydd y polisi, os ddaw i rym, yn sicrhau anogaeth gref i breswylwyr a datblygwyr i fabwysiadu enwau sy'n adlewyrchu natur ieithyddol y sir ac yn parchu hanes a diwylliant ein hardaloedd.

## Cwynion a dderbyniwyd 2021/22

1. Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â thystysgrif geni ei phlentyn, a diffyg cynnig gwasanaeth cyfrwng y Gymraeg gan y Tîm Cofrestru.

Esboniodd y tîm bod gwasanaeth cyfrwng Cymraeg wedi ei gynnig ond nad oedd yr unigolyn wedi medru cadarnhau y manylion angenrheidiol yn y Gymraeg. Cyngorwyd yr unigolyn ar sut i newid iaith y dystysgrif petaent yn dymuno at y dyfodol.

2. Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd am nad oedd y Cyngor wedi cyflwyno ymateb cyfrwng Cymraeg i Bwyllgor o Senedd Cymru, fel rhan o ymchwiliad gan y Senedd.

Esboniwyd i'r unigolyn nad yw Senedd Cymru yn ddarostyngedig i'r Safonau a phetai'r Cyngor wedi cyhoeddi'r wybodaeth ar ein gwefan corfforaethol, byddai'r wybodaeth wedi bod yn ddwyieithog.

## Dysgu Cymraeg a Dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

### Dysgu Cymraeg

Mae dysgu Cymraeg yn parhau i gael ei ddarparu'n rhithiol. Mae ein staff yn dysgu trwy un o'r dulliau isod:

- Cyrsiau rhithiol prif ffrwd ar-lein gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg
- Cyrsiau Cymraeg Gwaith a ariennir gan y Llywodraeth drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol
- Say Something in Welsh

Mae nifer o staff bellach hefyd yn defnyddio dulliau mwy anffurfiol fel Duolingo, Podlediadau a YouTube.

Mae'r Cyngor yn cynnig nifer o gyfleoedd ar gyfer pob lefel o 0-5 i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Mae'r dysgwyr yn mynychu tua 120 o oriau dysgu i gyrraedd y lefel nesaf ac yn ymrwmo i ddysgu ar gyrsiau a phatrymau dysgu amrywiol. Mynychodd rhai ohonynt wersi rhwng 2 a 4 awr yn wythnosol, tra bod gwell gan rai ymrwmo i wythnos o ddysgu dwys. Eleni, mae rhai darparwyr wedi creu cyrsiau dwys 1 wythnos am gyfnod o 5 mis ac mae'r math hwn o ddysgu wedi bod yn fuddiol i nifer o'n staff. Gwelwyd cynnydd hefyd mewn dysgu cyfunol, ble mae angen i staff ymrwmo i 4 awr o ddysgu'r wythnos, ond mae elfen o hyn yn cael ei gyflawni fel hunan astudio.

Er bod staff yn colli'r elfen o glywed yr iaith mewn amgylchedd gwaith, mae rhai dysgwyr yn cymryd mantais o fynychu clybiau siarad anffurfiol fel Clwb Clecs a Thê Pnawn, ynghyd â'r Clwb Clebran.

Eleni, rydyn wedi creu rhaglen 'Codi Hyder' i annog staff sydd eisoes yn rhugl neu wedi dysgu Cymraeg i'w hannog i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg yn y gweithle. Cofrestrodd cyfanswm o 105 o staff ar y cyrsiau yma oedd yn cynnwys un o'r canlynol:

- Rhaglen Codi Hyder
- Cwrs 1-Wythnos Ddwys
- Cwrs Gloywi Ysgrifenedig
- Gwella'ch Cymraeg Ysgrifenedig

Dyma ffigyrau'r staff sydd wedi eu cofrestru ar wahanol gyrsiau yn ystod 2021-2022. Nid yw'r ffigyrau o'r rhai sydd wedi cwblhau ar gael, gan fod cyrsiau nawr ar gael trwy gydol y flwyddyn (yn hytrach na chael flwyddyn academaidd benodol).

Cwrs Dysgu Cymraeg	Lefel disgwylir i gyrraedd ar ôl y cwrs	Nifer sydd wedi cofrestru 21/22
Croeso a Chroeso Nol	Lefel 1	<i>Darpariaeth drwy'r flwyddyn</i>
Mynediad	Lefel 2	64
Mynediad Cymraeg Gwaith Ar-lein	Lefel 2	41
Sylfaen	Lefel 3	37
Canolradd	Lefel 4	10

Uwch	4
Cyrsiau byr (adolygu)	5
Codi Hyder	41
Gloywi	18
Gwella'ch Cymraeg (1 wythnos dwys)	1
Gwella'ch Cymraeg Ysgrifenedig	<i>Darpariaeth drwy'r flwyddyn</i>
Say Something in Welsh	6
<b>Cyfanswm:</b>	<b>227</b>

### Cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg:

Yn ystod 2021/22 mynychodd 145 o staff gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Cafodd rhain eu darparu'n rhithiol neu drwy e-ddysgu. Mae'r ffigwr yma dipyn yn is na 2020/21 pan ddysgodd 1,120 trwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae'n bwysig nodi y gwelwyd cynnydd sylweddol yn y niferoedd yn cwblhau e-ddysgu yn ystod y cyfnod clo. Fodd bynnag, yn 2018/19 roedd 91 aelod o staff wedi cwblhau cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg, felly o'i gymharu gyda chyfnod tebyg, mae'r niferoedd wedi cynyddu. Eleni rydyn wedi cynnwys 'Mentora Iaith Gymraeg' isod yn hytrach na gyda'r cyrsiau 'Dysgu Cymraeg'.

<b>Amser Stori Actif</b>	2
<b>Cadeirio Gwrandawriad Disgyblu</b>	1
<b>Cyfle i Feddwl - Deall Iechyd Meddwl</b>	3
<b>Datgelu Camarfer</b>	6
<b>Diogelu Data (GDPR)</b>	39
<b>Diogelu Oedolion a Phlant</b>	1
<b>Gwytnwch Personol</b>	11
<b>Iechyd Meddwl Yn y Gweithle</b>	11
<b>Cyflwyniad i Microsoft Teams</b>	4
<b>Mentora Iaith Gymraeg</b>	14
<b>Safonau Ymddygiad yn y Gweithle</b>	15
<b>Sefydlu Gweithiwr Newydd</b>	15
<b>Sgiliau ar gyfer Chwaraeon</b>	1
<b>Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol</b>	1
<b>VAWDASV - VIOLENCE AGAINST WOMEN</b>	1
<b>Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg</b>	20
<b>Cyfanswm:</b>	<b>145</b>

Mae hefyd yn bwysig nodi, lle nad oes modd darparu cyrsiau neu sesiynau hyfforddiant yn uniaith Gymraeg, ein bod yn prysur ledaenu'r arfer o gynnwys Cymraeg wrth gyflwyno, darparu deunyddiau dwyieithog a rhoi cyfle i fynychwyr gyfrannu'n Gymraeg. Mae Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn sicrhau bod eu holl adnoddau yn ddwyieithog, yn croesawu pawb yn ddwyieithog ag yn apwyntio hyfforddwyr Cymraeg fel bo angen.

O ran hyfforddiant i aelodau etholedig, mae adnoddau'r holl hyfforddiant yn cael eu darparu'n ddwyieithog. Darparwyd rhai cyrsiau yn uniaith Gymraeg a rhai yn ddwyieithog, lle darparwyd rhan o'r sesiwn yn Gymraeg a rhan yn Saesneg. Yn ogystal, cynigwyd grwpiau trafod Cymraeg i'r staff yn ystod ymarferion gweithdai ar draws Dysgu a Datblygu .

## Sgiliau Iaith y Gweithlu

Am y tro cyntaf, rydyn ni'n adrodd ar lefelau iaith fesul adran o fewn y Cyngor er mwyn ein cynorthwyo i ddadansoddi'r sefyllfa yn well. Byddwn yn adrodd yn y fformat yma yn Adroddiad Blynnyddol 2022/23 er mwyn medru cymharu'r niferoedd a chynllunio ein blaenraglen waith.

### Siarad

Adran	0	1	2	3	4	5	Cyfanswm
<b>Addysg a Phlant</b>	<b>161</b>	<b>362</b>	<b>224</b>	<b>154</b>	<b>93</b>	<b>269</b>	<b>1254</b>
<b>Amgylchedd</b>	<b>187</b>	<b>254</b>	<b>119</b>	<b>118</b>	<b>114</b>	<b>154</b>	<b>946</b>
<b>Cymunedau</b>	<b>110</b>	<b>830</b>	<b>325</b>	<b>246</b>	<b>180</b>	<b>316</b>	<b>2007</b>
<b>Gwasanaethau Corfforaethol</b>	<b>14</b>	<b>59</b>	<b>39</b>	<b>27</b>	<b>32</b>	<b>33</b>	<b>204</b>
<b>Prif Weithredwr</b>	<b>18</b>	<b>109</b>	<b>69</b>	<b>62</b>	<b>73</b>	<b>117</b>	<b>448</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>490</b>	<b>1614</b>	<b>776</b>	<b>607</b>	<b>492</b>	<b>880</b>	<b>4859</b>

Fel canran, mae 41% o staff yr adran Addysg a Phlant yn meddu ar sgiliau llafar Cymraeg lefel 3+, 41% o adran yr Amgylchedd, 37% o'r Adran Cymunedau, 45% o'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol, 56% o Adran y Prif Weithredwr a 41% o'r staff i gyd.

### Ysgrifennu

Adran	0	1	2	3	4	5	Cyfanswm
<b>Addysg a Phlant</b>	<b>346</b>	<b>305</b>	<b>196</b>	<b>118</b>	<b>96</b>	<b>187</b>	<b>1248</b>
<b>Amgylchedd</b>	<b>306</b>	<b>223</b>	<b>124</b>	<b>122</b>	<b>86</b>	<b>83</b>	<b>944</b>
<b>Cymunedau</b>	<b>511</b>	<b>628</b>	<b>283</b>	<b>218</b>	<b>144</b>	<b>195</b>	<b>1979</b>
<b>Gwasanaethau Corfforaethol</b>	<b>30</b>	<b>67</b>	<b>34</b>	<b>20</b>	<b>33</b>	<b>19</b>	<b>203</b>

<b>Prif Weithredwr</b>	<b>63</b>	<b>105</b>	<b>65</b>	<b>72</b>	<b>63</b>	<b>79</b>	<b>447</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>1256</b>	<b>1328</b>	<b>702</b>	<b>550</b>	<b>422</b>	<b>563</b>	<b>4821</b>

Fel canran, mae 32% o staff yr adran Addysg a Phlant yn meddu ar sgiliau ysgrifennu Cymraeg lefel 3+, 30% o adran yr Amgylchedd, 28% o'r Adran Cymunedau, 36% o'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol, 49% o Adran y Prif Weithredwr a 32% o'r staff i gyd.

## Camau datblygu

Ar gyfer 2022-23, byddwn yn parhau â thrywydd y gwaith presennol mewn sawl maes, ac o ddilyn proses o hunanasesu diweddar, mae'r Cyngor wedi adnabod ambell i ardal ar gyfer datblygu ein cydymffurfiaeth i'r Safonau, sy'n fwy gweinyddol eu naws.

### **Y Safonau Darparu Gwasanaeth**

Rydym yn gwbl bendant ein bod yn trin ceisiadau grant a cheisiadau am gontractau a ddaw yn Gymraeg yn yr un modd a rhai Saesneg, ac er ein bod wedi gwneud cryn waith yn ddiweddar i sicrhau bod ein dogfennau trefnu contractau yn cyfeirio at waith cyfrwng Cymraeg y bydd disgwyl i gontractwr ei wneud wrth gyflenwi gwasanaethau ar ran y cyngor. Ond nid ydym yn tynnu sylw digonol at y ffaith fod modd cyflwyno ceisiadau am dendr a grant trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn ategu hyn i'n tudalennau gwe eleni ac yn sicrhau ei fod yn fwy amlwg ar y gwaith papur oll.

### **Y Safonau Gweithredu**

Bydd y Cyngor yn parhau i weithredu i gynyddu defnydd y Gymraeg yn y gweithle gan arbrofi gyda chynnig cefnogaeth amrywiol i grwpiau penodol o staff gyda'r bwriad o arfogi ein hunain i symud y staff ar hyd y continwrm ieithyddol i weithredu fwyfwy drwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth wneud hyn byddwn hefyd yn cryfhau'r ystod o wasanaethau mewnol Cymraeg a threfniadau recriwtio a phenodi'r Cyngor yn y cyfnod anodd hwn. Byddwn yn gweithredu i sicrhau fod y gweithlu yn un naturiol Gymraeg, lle bo hynny'n bosib a, lle nad yw'n bosib, byddwn yn datblygu sgiliau Cymraeg y staff ac yn eu hannog i ddefnyddio hynny o Gymraeg sydd ganddynt wrth weithredu.

### **Y Safonau Hybu**

Bydd llawer o waith y flwyddyn nesaf yn deillio o gwblhau adroddiad y Strategaeth Hybu a sefydlu a gweithredu'r Strategaeth newydd ar gyfer 2022-2027. Bydd parhad ar y gwaith datblygu yn ardal Llanelli a pharhad i'r gwaith o ddatblygu'r Gymraeg law yn llaw â'r economi, nid yn unig drwy brosiectau datblygu economaidd y sir, ond hefyd drwy sefydlu *Arfor 2* ar y cyd gyda siroedd y gogledd-orllewin. Bydd y Cyngor yn dal i arwain ar y gwaith sy'n deillio o'r Strategaeth Hybu, ond bydd angen sicrhau ymrwymiad gynyddol y cyrff cyhoeddus eraill er mwyn symud y gwaith ymlaen.



## ATODIAD 1

### Ydych chi wedi cynnig dewis iaith ac wedi cadw cofnod o'r dewis hwnnw?

'Do' - Os mai **Cymraeg** yw'r dewis iaith

Na - Nid oes unrhyw ddewis iaith wedi'i gofnodi na'i sefydlu

Cariwch ymlaen i ohebu yn Gymraeg.

Gwnewch yn siŵr eich bod staff neu adrannau eraill a fydd hefyd yn gohebu gyda'r unigolyn neu'r sefydliad yn gwybod mai Cymraeg yw eu dewis iaith.

Gwnewch cyn siŵr fod y frawddeg hon ar ddiwedd yr ohebiaeth 'Mae croeso i chi gysylltu gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg' / You're welcome to correspond with the Council in Welsh or English'.

Os oes unrhyw amheuaeth, neu os ydy'r unigolyn / sefydliad yn newid iaith, ewch yn ôl i ohebu yn ddwyieithog.



Os na dderbynioc chi unrhyw ohebiaeth a chi yn **gohebu am y tro cyntaf** / os dderbynioc chi ohebiaeth **Saesneg**

Wedi derbyn gohebiaeth yn **Gymraeg**



**Pan ydych chi'n gohebu gyda'r person neu'r sefydliad, mae'n rhaid darparu fersiwn Cymraeg o'r ohebiaeth a chynnwys** 'Mae croeso i chi gysylltu gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg' / You're welcome to correspond with the Council in Welsh or English'.



**Os ydych chi'n creu fersiwn Cymraeg a Saesneg o ohebiaeth, mae'n rhaid peidio trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg (er enghraifft, os ydy'r fersiwn Saesneg wedi arwyddo, neu os oes manylion cyswllt wedi eu cynnwys ar y fersiwn Saesneg, yna mae'n rhaid i'r fersiwn Gymraeg fod yr un peth).**



Os byddwch yn gohebu'n gyson neu'n aml gyda'r unigolyn neu'r sefydliad, gallech ofyn a hoffan nhw ohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. Os ydyn nhw'n ateb 'Saesneg', gallwch ohebu'n Saesneg yn unig, cyhyd â'ch bod yn cadw cofnod o'r dewis hwn.




**Byddwch yn ateb yn Gymraeg ac yn cynnwys,** 'Mae croeso i chi gysylltu gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg' / You're welcome to correspond with the Council in Welsh or English'

Sylwch wrth anfon gohebiaeth at sawl person - **rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.**

## Atodiad 2

### Sgrin-lun o adroddiad holiadur sefydliadau tref Llanelli

#### Ydych chi'n teimlo fod sefyllfa'r Gymraeg yn Llanelli yn:



#### Ydych chi'n meddwl bod digon o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn Llanelli?



#### Ble / Beth sy'n defnyddio llawer o Gymraeg yn Llanelli?

Everywhere

There is a little bit of Welsh everywhere in Llanelli, but rarely 1st choice

Council, including schools

Y Lle

Churches, schools, some community centres

Education & other public bodies

School,shops, social events

market stalls, some businesses

All public bodies and any that are publicly funded

Ysgolion Gymraeg, Eglwsi Gymraeg, rhei sefydliadau/cymdeithasau